TAG UG/SAFON UWCH

TAG UG/SAFON UWCH CBAC

# DRAMA A THEATR

CYMERADWYWYD GAN CYMWYSTERAU CYMRU

## MANYLEB



Addysgu o 2016

I'w ddyfarnu o 2017 (UG)
I'w ddyfarnu o 2018 (Safon Uwch)

Fersiwn 8 Medi 2024

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

# CRYNODEB O NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Newidiwyd yr hyd sy’n cael ei awgrymu ar gyfer y recordiad clyweledol/blog (o’r cofnod creadigol) i 5-8 munud. | 13 |
| | Newidiwyd nifer y geiriau sy’n cael ei awgrymu ar gyfer yr adroddiad proses a gwerthuso i ‘ddim mwy na 3000 o eiriau’. | 21 |
| | Dilewyd y gosb am berfformiadau ymarferol sy’n llai na’r isafswm amser sy’n cael ei awgrymu. | 28 a 31 |
| | Newidiwyd Adran 4.1 i egluro’r rheolau ailsefyll a throsglwyddo. | 32 |
| 3 | Ychwanegwyd pymtheg gwaith gosod ychwanegol i ddewis ohonynt ar gyfer Uned 1, Gweithdy Theatr, i’w hasesu o haf 2022 yn Atodiad A. | 34 i 36 |
| 4 | Ychwanegwyd testunau gosod newydd ar gyfer Uned 2 ac Uned 4, i'w hasesu o Haf 2025 (Uned 2) a Haf 2026 (Uned 4). | 2,3,16 a 23 |
| | Newidiwyd y wybodaeth ynghylch perfformiadau sy'n hirach na'r terfynau amser yn Uned 1 ac Uned 3. Ni chosbir ymgeiswyr mwyach am fynd dros y terfyn amser yn yr unedau hyn. | 28 a 31 |
| 5 | Dilewyd y cyfeiriadau at gyflwyno gwaith ar gof bach a DVD. | 15, 22, 29 a 31 |
| 6 | Diweddariad i’r Testunau Uned 4 i’w hastudio o 2026 ymlaen | 3,23 |
| 7 | Ychwanegwyd ISBN at un o’r testunau Uned 2 o 2025 ymlaen. | 16 |
| | Ychwanegwyd gosodiad i egluro darpariaeth y testunau Uned 4. | 23 |
| 8 | Dileu gofynion ISBN ar gyfer testunau gosod | 16, 23 a 24 |

© WJEC CBAC Ltd.

# TAG UG a SAFON UWCH CBAC DRAMA a THEATR

## I'w addysgu o 2016
## UG i'w ddyfarnu o 2017
## Safon Uwch i'w dyfarnu o 2018

Mae'r fanyleb hon yn bodloni'r Egwyddorion Cymwysterau TAG UG a Safon Uwch sy'n pennu gofynion yr holl fanylebau TAG newydd neu ddiwygiedig a ddatblygwyd i'w haddysgu yng Nghymru o fis Medi 2016.

**Tudalen**


| | | |
|---|---|---|
| **Crynodeb o'r asesu** | | 2 |
| 1. | **Rhagarweiniad** | **5** |
| | 1.1 Nodau ac amcanion | 5 |
| | 1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant | 7 |
| | 1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg | 7 |
| | 1.4 Bagloriaeth Cymru | 8 |
| | 1.5 Persbectif Cymreig | 8 |
| 2. | **Cynnwys y pwnc** | **9** |
| | 2.1 Unedau UG | 11 |
| | 2.2 Unedau U2 | 18 |
| 3. | **Asesu** | **26** |
| | 3.1 Amcanion asesu a phwysoli | 26 |
| | 3.2 Trefniadau ar gyfer asesiad di-arholiad | 27 |
| 4. | **Gwybodaeth dechnegol** | **32** |
| | 4.1 Cofrestru | 32 |
| | 4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl | 33 |
| **Atodiad A:** Rhestr o destunau ar gyfer Uned 1 | | 34 |
| **Atodiad B:** Rhestr o ymarferwyr a chwmnïau theatr | | 37 |
| **Atodiad C:** Gridiau asesu ar gyfer uned 1 | | 39 |
| **Atodiad Ch:** Canllawiau ar gyfer asesu Uned 1 | | 46 |
| **Atodiad D:** Deunyddiau ysgogi enghreifftiol ar gyfer Uned 3 | | 49 |
| **Atodiad Dd:** Gridiau asesu ar gyfer Uned 3 | | 50 |


© WJEC CBAC Ltd.

# TAG UG a SAFON UWCH DRAMA a THEATR (Cymru)

## CRYNODEB O'R ASESU

Mae'r fanyleb hon wedi'i rhannu'n gyfanswm o 4 uned, 2 uned UG a 2 uned U2. Mae'r pwysoli a nodir isod yn cael ei fynegi yn nhermau'r cymhwyster Safon Uwch llawn.

### UG (2 uned)

UG Uned 1: Gweithdy Theatr
Asesiad di-arholiad: wedi'i asesu'n fewnol a'i safoni'n allanol
24% o'r cymhwyster 90 marc

Bydd dysgwyr yn cael eu hasesu **naill ai** ar actio **neu** ddylunio.

Bydd dysgwyr yn cymryd rhan yn y gwaith o greu, datblygu a pherfformio darn o theatr yn seiliedig ar *ailddehongliad* o ddarn o destun fydd yn cael ei ddewis o restr y bydd CBAC yn ei chyflenwi. Rhaid i'r darn gael ei ddatblygu gan ddefnyddio technegau a dulliau gweithio **naill ai** ymarferwr theatr dylanwadol **neu** gwmni theatr cydnabyddedig.

Mae'n rhaid i ddysgwyr lunio:
- gwireddiad o'r perfformiad neu'r dyluniad
- cofnod creadigol
- gwerthusiad.

UG Uned 2: Testun mewn Theatr
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
16% o'r cymhwyster 60 marc

**Llyfr agored:** Rhaid mynd â chopi glân (heb ei anodi) o'r testun cyflawn a ddewiswyd i mewn i'r arholiad.

Cyfres o gwestiynau yn seiliedig ar **un** testun perfformiad o'r rhestr ganlynol:

***A Doll's House,*** Tanika Gupta
***Y Cylch Sialc***, Bertolt Brecht
***Leave Taking,*** Winsome Pinnock
***Wyneb yn Wyneb,*** Meic Povey
***The Weir,*** Conor McPherson
***Once,*** Enda Walsh
***Lovesong,*** Abi Morgan

*Bydd pob testun ar gael yn Gymraeg a Saesneg*.

© WJEC CBAC Ltd.

## Safon Uwch (yr uchod a 2 uned ychwanegol)

**U2 Uned 3: Testun ar Waith**
Asesiad di-arholiad: wedi'i asesu'n allanol gan arholwr ymweld
36% o'r cymhwyster 120 marc

Bydd dysgwyr yn cael eu hasesu **naill ai** ar actio **neu** ddylunio.

Bydd dysgwyr yn cymryd rhan yn y gwaith o greu, datblygu a pherfformio **dau** ddarn o theatr yn seiliedig ar ysgogiad y bydd CBAC yn ei ddarparu:

- darn wedi'i ddyfeisio gan ddefnyddio technegau a dulliau gweithio **naill ai** ymarferwr theatr dylanwadol **neu** gwmni theatr cydnabyddedig (ymarferwr neu gwmni gwahanol i'r un a ddewisir ar gyfer Uned 1)
- darn o destun mewn arddull gwahanol a ddewisir gan y dysgwr

Rhaid i ddysgwyr wireddu eu perfformiad byw ar gyfer yr arholwr ymweld.
Rhaid i ddysgwyr sy'n dewis dylunio hefyd roi cyflwyniad heb ei asesu, **5-10 munud o hyd**, o'u dyluniad i'r arholwr.
Rhaid i ddysgwyr lunio adroddiad proses a gwerthuso **o fewn wythnos** i gwblhau eu gwaith ymarferol.

**U2 Uned 4: Testun mewn Perfformiad**
Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 30 munud
24% o'r cymhwyster 95 marc

**Llyfr agored:** Rhaid mynd â chopi glân (heb ei anodi) o'r **ddau** destun cyflawn a ddewiswyd i mewn i'r arholiad.

Dau gwestiwn, yn seiliedig ar **ddau destun gwahanol** o'r rhestr ganlynol:

**Rhestr o'r testunau gosod i'w hasesu hyd at ac yn cynnwys 2025**
***Diwrnod ym Marwolaeth Jo Ŵy,*** Peter Nichols
***Sweeney Todd,*** Stephen Sondheim
***Absenoldeb Rhyfel,*** David Hare
****Mametz,*** Owen Sheers
****Radicaleiddiad Bradley Manning,*** Tim Price
***Un Nos Ola Leuad,*** Caradog Prichard, addasiad Bara Caws.

**Rhestr o destunau gosod i'w hasesu o 2026 ymlaen**
***The Trial,*** Stephen Berkoff
***Blues for an Alabama Sky,*** Pearle Cleage
***One Man Two Guvnors,*** Carlo Goldoni (addasiad Richard Bean)
***The Curious Incident of the Dog in the Night-Time,*** Mark Haddon (addasiad Simon Stephens)
***The Watsons,*** Laura Wade
***Nyrsys,*** Bethan Marlow
***Our Generation,*** Alecky Blythe

**Mae'r testunau hyn yn cynnwys golygfeydd o natur aeddfed.*

*Bydd pob testun ar gael yn Gymraeg a Saesneg.*

© WJEC CBAC Ltd.

Manyleb unedol yw hon sy'n caniatáu am elfen o asesu mewn camau.  Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu'r haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon.

Bydd Uned 1 ac Uned 2 ar gael yn 2017 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster UG am y tro cyntaf yn haf 2017.

Bydd Uned 3 ac Uned 4 ar gael yn 2018 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster Safon Uwch am y tro cyntaf yn haf 2018.

**Rhif Cymhwyster ar restr The Register:**
**TAG UG: 603/0290/2**
**TAG Safon Uwch: 603/0289/6**

**Rhif Cymeradwyo Cymwysterau Cymru ar restr QiW:**
**TAG UG: C00/0791/4**
**TAG Safon Uwch: C00/0791/3**

© WJEC CBAC Ltd.

# TAG UG a SAFON UWCH DRAMA a THEATR

# 1 RHAGARWEINIAD

## 1.1 Nodau ac amcanion

Mae TAG UG a Safon Uwch CBAC mewn Drama a Theatr yn cynnig cwrs astudio ymarferol a heriol sy'n annog dysgwyr i:

- ddatblygu a chymhwyso fframwaith hyddysg, dadansoddol ar gyfer gwneud, perfformio, dehongli a deall drama a theatr
- deall pwysigrwydd ymchwil damcaniaethol perthnasol wrth lywio'r prosesau a'r arferion sy'n gysylltiedig â chreu theatr a phwysigrwydd archwilio'n ymarferol wrth lywio gwybodaeth ddamcaniaethol o ddrama a theatr
- datblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r modd y mae cyd-destunau testunau perfformio cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol wedi dylanwadu ar ddatblygiad drama a theatr
- deall yr arferion sy'n cael eu defnyddio wrth wneud theatr yn yr unfed ganrif ar hugain
- profi amrywiaeth o gyfleoedd i greu theatr, mewn gwaith sy'n seiliedig ar destunau cyhoeddedig ac mewn gwaith wedi'i ddyfeisio
- cymryd rhan fel gwneuthurwr theatr ac fel aelod o'r gynulleidfa mewn theatr fyw
- deall a phrofi'r gydberthynas gydweithredol rhwng rolau amrywiol ym maes y theatr
- meithrin ac arddangos amrywiaeth o sgiliau gwneud theatr
- datblygu'r creadigedd a'r annibyniaeth i ddod yn wneuthurwyr theatr effeithiol
- mabwysiadu arferion gweithio diogel fel gwneuthurwr theatr
- dadansoddi a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill.

© WJEC CBAC Ltd.

Mae Safon Uwch CBAC Drama a Theatr yn gwrs cyffrous ac ysbrydoledig sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer astudiaeth bellach ar lefel Addysg Uwch. Mae'r fanyleb hon, sy'n dra ymarferol, yn rhoi cyfle i ddysgwyr weithio naill ai fel perfformwyr a/neu ddylunwyr ar **dri** pherfformiad gwahanol. Yn Uned 1 bydd dysgwyr yn *ailddehongli* testun i greu darn o theatr sy'n gyfuniad o'r testun a ddewiswyd a syniadau gwreiddiol. Yn Uned 3 bydd dysgwyr yn defnyddio ysgogiad i greu dau ddarn o theatr mewn arddulliau gwahanol; un yn ddehongliad o destun o'u dewis a'r llall yn ddarn wedi'i ddyfeisio. Bwriedir i Unedau 1 a 3 annog dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng theori ddramatig a'u harfer eu hunain. Wrth baratoi eu gwaith ymarferol, bydd dysgwyr yn archwilio gwaith **dau** ymarferwr theatr (unigolion neu gwmnïau) o'u dewis ac yn cymhwyso eu hymchwil wedyn at eu perfformiadau neu ddyluniadau.

Yn Unedau 2 a 4, bydd dysgwyr yn ymchwilio i **dri** thestun perfformio cyflawn. Mae rhestr gyffrous ac amrywiol o destunau i ddewis ohonynt; rhaid i ganolfannau ddewis **un** a ysgrifennwyd cyn 1956 ar gyfer UG a **dau** a ysgrifennwyd ar ôl 1956 ar gyfer U2. Mae'n ofynnol i ddysgwyr hefyd wylio o leiaf **ddau** gynhyrchiad o theatr fyw a dysgu am y prosesau a'r arferion sy'n gysylltiedig â dehongli a pherfformio theatr.

© WJEC CBAC Ltd.

## 1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant

Y ganolfan sydd i benderfynu ar unrhyw ofynion sy'n cael eu pennu o ran cael mynediad i gwrs sy'n dilyn y fanyleb hon. Mae'n rhesymol derbyn y bydd llawer o'r dysgwyr wedi ennill cymwysterau sy'n cyfateb i Lefel 2 CA4. Bydd sgiliau Rhifedd/Mathemateg, Llythrennedd/Saesneg a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn sylfaen dda ar gyfer symud ymlaen i'r cymhwyster Lefel 3 hwn.

Mae'r fanyleb hon yn adeiladu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a feithrinwyd yn ystod TGAU.

Mae'r fanyleb hon yn gweithredu fel sylfaen addas ar gyfer astudio Drama neu faes perthynol drwy ddilyn amrywiaeth o gyrsiau addysg uwch, symud ymlaen i'r lefel nesaf o gymwysterau galwedigaethol neu gyflogaeth. Yn ogystal, mae'r fanyleb hon yn gwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

Nid yw'r fanyleb hon yn benodol i oedran ac felly mae'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr barhau i ddysgu gydol oes.

## 1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i ryw a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd benodol wedi ei hamddiffyn.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y nodweddion penodol wedi'u hamddiffyn yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r fanyleb hon wedi'i thrafod â grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau ystod amrywiol o ddysgwyr, ac adolygir y fanyleb yn gyson.

Caiff addasiadau rhesymol eu gwneud ar gyfer rhai dysgwyr fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd (e.e. gwneud cais am amser ychwanegol mewn pwnc TAG lle mae gofyn ysgrifennu'n estynedig). Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol.*

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk). O ganlyniad i ddarpariaeth addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr fydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesu.

© WJEC CBAC Ltd.

## 1.4 Bagloriaeth Cymru

Dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddatblygu'r sgiliau sy'n cael eu hasesu drwy'r Dystysgrif Her Sgiliau sy'n rhan o Fagloriaeth Cymru:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Ddigidol
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigredd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol.

## 1.5 Persbectif Cymreig

Wrth ddilyn y fanyleb hon, dylai dysgwyr gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ystyried persbectif Cymreig os bydd cyfle i wneud hynny'n deillio'n naturiol o'r deunydd pwnc ac os byddai gwneud hynny'n cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r byd o'u cwmpas fel dinasyddion o Gymru yn ogystal â'r DU, Ewrop a'r byd.

© WJEC CBAC Ltd.

# 2 CYNNWYS Y PWNC

**Trosolwg**

Lluniwyd y fanyleb hon gan CBAC i hyrwyddo cydbwysedd rhwng gwneud theatr ymarferol a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol o ddrama a theatr. Mae'r cwrs astudio ysgogol a diddorol hwn yn annog dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng theori ddramatig a'u harfer nhw.

Bydd dysgwyr yn astudio **pum** testun perfformio (**tri** thestun cyflawn a **dau** ddarn allweddol o **ddau** destun gwahanol, wedi'u hastudio yng nghyd-destun y testun cyflawn) gan gynrychioli amrywiaeth o gyd-destunau cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol. Mae'r testunau cyflawn yn cael eu hastudio ar gyfer yr arholiadau ysgrifenedig ac mae'r darnau allweddol hyn yn cael eu rhannu rhwng y ddwy uned ymarferol.

Bydd dysgwyr hefyd yn astudio **dau** ymarferwr theatr dylanwadol (unigolion neu gwmnïau) ac yn cynhyrchu **tri** pherfformiad; **un** perfformiad testun, **un** perfformiad wedi'i ddyfeisio, ac **un** perfformiad yn seiliedig ar *ailddehongliad* creadigol o ddarn o destun.

Yn ogystal â gwneud eu theatr eu hunain, bydd dysgwyr hefyd yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth am rôl y cyfarwyddwr ac yn cymryd rhan mewn theatr fyw fel aelod o'r gynulleidfa. Mae'n ofynnol i ddysgwyr weld o leiaf **dau** gynhyrchiad o theatr fyw yn ystod y cwrs dwy flynedd. Mae'n dderbyniol defnyddio cynyrchiadau theatr fyw wedi'u ffrydio yn lle theatr fyw.

Bydd y cynnwys hwn yn cael ei rannu fel a ganlyn rhwng y pedair uned.

| Cynnwys | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 | Uned 4 |
|---|---|---|---|---|
| Ymarferwr theatr/cwmni theatr | ✓ | | ✓ | |
| Perfformiad testun | ✓ | | ✓ | |
| Perfformiad wedi'i ddyfeisio | | | ✓ | |
| Testun cyflawn | | ✓ | | ✓ |
| Gwerthusiad o theatr fyw | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gwerthusiad o'u gwaith nhw | ✓ | | ✓ | |

Rhoddir cyfle i ddysgwyr ddatblygu sgiliau perfformio **a/neu** ddylunio sy'n briodol i'w diddordebau a'r cyfleusterau sydd ar gael yn y ganolfan. Rhaid i ddysgwyr ddewis **un** sgìl o'r rhestr ganlynol ar gyfer Uned 1 ac Uned 3. Gallant **naill ai** ddewis yr un sgìl ar gyfer Unedau 1 a 3, **neu** sgìl gwahanol ar gyfer Unedau 1 a 3.

- Perfformio
- Dylunio sain
- Dylunio goleuo
- Dylunio set (gan gynnwys propiau)
- Dylunio gwisgoedd (gan gynnwys gwallt a cholur)

Dylai dysgwyr fabwysiadu arferion gweithio diogel ym mhob uned yn ôl cyfarwyddyd y ganolfan.

© WJEC CBAC Ltd.

**Gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau ar gyfer Safon Uwch Drama a Theatr**

Bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- y prosesau a'r arferion theatrig sy'n gysylltiedig â dehongli a pherfformio theatr
- sut mae confensiynau, ffurfiau a thechnegau yn cael eu defnyddio mewn drama a theatr fyw i greu ystyr, gan gynnwys:
  - defnyddio gofod perfformio a chydberthnasau gofodol ar lwyfan
  - cydberthnasau rhwng perfformwyr a chynulleidfa
  - dylunio set, gwisgoedd, colur, goleuo, sain a phropiau
  - dehongliad lleisiol a chorfforol y perfformiwr o gymeriad
- sut mae dewisiadau creadigol ac artistig yn dylanwadu ar y ffordd y mae ystyr yn cael ei gyfleu i gynulleidfa
- sut mae testunau perfformio yn cael eu llunio i gael eu perfformio, gan gyfleu ystyr drwy:
  - strwythur
  - iaith
  - cyfarwyddiadau llwyfan
  - llunio cymeriad
  - arddull y testun
- sut mae testunau perfformio yn cael eu llywio gan eu cyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol, a'u dehongli a'u perfformio ar gyfer cynulleidfa
- y cysylltiadau rhwng theori ac ymarfer mewn amrywiaeth o gyfnodau, arddulliau theatrig, cyd-destunau cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol
- sut mae ymchwil perthnasol, meddwl yn annibynnol a dadansoddi theatr fyw yn llywio penderfyniadau yn eu gwaith ymarferol nhw
- sut mae gwneuthurwyr theatr yn cydweithio i greu theatr.

Bydd dysgwyr hefyd yn dangos y gallu i:

- ddefnyddio methodolegau gweithio dau ymarferwr theatr neu gwmni theatr
- defnyddio technegau theatrig i greu ystyr mewn cyd-destun theatr fyw fel gwneuthurwyr theatr drwy:
  - ymchwilio i syniadau a'u datblygu
  - dehongli testunau
  - dyfeisio
  - diwygio, ymarfer a mireinio'r gwaith dan sylw
  - gwireddu bwriadau artistig yn greadigol ac yn gydlynol drwy berfformiad neu ddyluniad
- defnyddio ymchwil ar gyfer gwaith ymarferol i lywio eu penderfyniadau eu hunain a chyflawni bwriadau dramatig a theatrig clir
- dadansoddi a gwerthuso'r broses o greu eu theatr fyw eu hunain ac effeithiolrwydd y canlyniad terfynol
- dehongli, dadansoddi a gwerthuso perfformiad theatr fyw gan eraill.

© WJEC CBAC Ltd.

# 2.1 UNEDAU UG

## Uned 1

### Gweithdy Theatr

Asesiad di-arholiad: wedi'i asesu'n fewnol a'i safoni'n allanol gan CBAC
24% o'r cymhwyster
90 marc

Mae'n ofynnol i ddysgwyr greu darn o theatr yn seiliedig ar ddarn o destun gan ddefnyddio technegau a dulliau gwaith **naill ai** ymarferwr theatr dylanwadol **neu** gwmni theatr cydnabyddedig.

### Trefniadau grŵp

Rhaid i ddysgwyr weithio mewn grwpiau a fydd yn cynnwys rhwng **dau** a **phum** actor. Hefyd, gall pob grŵp gynnwys hyd at **bedwar** dylunydd, gyda phob un yn cynnig sgìl dylunio **gwahanol.** Rhaid i ddysgwyr sy'n dewis dylunio weithio gyda grŵp o actorion. Fodd bynnag, nid oes angen i bob grŵp actio weithio gyda dylunwyr. Rhaid i ddysgwyr sy'n dewis dylunio ddewis **un** opsiwn o'r rhestr ganlynol:

- dylunio goleuo
- dylunio sain
- dylunio set (gan gynnwys propiau)
- dylunio gwisgoedd (gan gynnwys gwallt a cholur).

Rhaid i ddylunwyr gyfrannu'n llawn at y broses o greu darn o theatr. Rhaid i ganolfannau roi ystyriaeth ofalus i'r cyfuniad o sgiliau dylunio mewn grŵp penodol, a'r dewis o destun ac ymarferwr neu gwmni, gan sicrhau bod pob dysgwr yn gallu targedu AA1 ac AA2 ac arddangos eu lefel uchaf o sgiliau

### Dewis testun addas

At ei gilydd, ar draws y pedair uned yn y fanyleb hon, bydd dysgwyr yn astudio **pum** testun perfformio gwahanol. Rhaid i'r testunau a ddewisir ar gyfer y cymhwyster gynrychioli amrywiaeth o gyd-destunau cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol. Yn yr uned hon, rhaid i bob grŵp ddewis **un** testun o'r rhestr sydd i'w gweld yn Atodiad A ac astudio darn 10-15 munud o'r testun, yng nghyd-destun y testun cyfan. Gall pob grŵp o ddysgwyr ddewis darn neu destun gwahanol, er y caniateir i grwpiau gwahanol hefyd ddewis yr un darn neu destun. Dylai athrawon lywio'r broses er mwyn sicrhau bod y darn a ddewisir yn addas ar gyfer y cyfuniad o ddysgwyr, gan gynnwys dylunwyr, ym mhob grŵp.  Dylai canolfannau hefyd sicrhau bod maint y grŵp a'r dewis o destunau yn galluogi dysgwyr i fabwysiadu arferion gweithio diogel.

© WJEC CBAC Ltd.

Mae **pum** cam i'r uned hon.

## 1. Ymchwilio

a. Rhaid i ddysgwyr astudio'r darn o'u dewis yng nghyd-destun y testun cyfan. Wrth ymchwilio i'r testun dylai dysgwyr ystyried sut mae testunau perfformio yn cael eu llunio i gael eu perfformio, gan gyfleu ystyr drwy:
- strwythur
- llunio cymeriad.

b. Rhaid i ddysgwyr ymchwilio i dechnegau a dulliau gweithio **naill ai** ymarferwr theatr dylanwadol **neu** gwmni theatr cydnabyddedig. Mae rhestr o ymarferwyr theatr a chwmnïau theatr addas i'w gweld yn Atodiad B. Canllaw yn unig yw'r rhestr hon. Gall dysgwyr ddewis ymarferwr neu gwmni gwahanol os dymunant. Os bydd gennych unrhyw amheuaeth ynghylch priodoldeb yr ymarferwr neu gwmni theatr a ddewiswyd, cysylltwch â CBAC am gyngor. Mewn perthynas â'r ymarferwr neu gwmni a ddewisir, dylai dysgwyr ymchwilio i'r canlynol:

- eu cyd-destun hanesyddol, cymdeithasol a diwylliannol
- eu pwrpas a'u harferion theatrig
- eu bwriadau artistig
- natur arloesol eu dull gweithredu
- eu dulliau gweithio
- eu harddull theatrig a'u defnydd o gonfensiynau
- eu cydweithrediad ag ymarferwyr eraill/eu dylanwad arnynt.

## 2. Datblygu

Dylai dysgwyr gymryd rhan yn y broses o greu a datblygu darn o theatr yn seiliedig ar *ailddehongliad* o'r darn a ddewiswyd i'w astudio yng ngham 1 (gweler cam 4 ar gyfer hyd y darn). Gall hyn gynnwys ail-ddychmygu’r testun mewn cyd-destun gwahanol, ei ailddehongli ar gyfer cynulleidfa wahanol neu unrhyw fath arall o ail-weithio creadigol. Rhaid i ddysgwyr ddatblygu eu darn gan ddefnyddio dulliau gweithio a thechnegau ymarferwr theatr neu gwmni theatr y dewiswyd eu hastudio yng ngham 1, a rhaid gweld nodweddion adnabyddadwy eu gwaith yn y darn. Maent yn cael eu hannog i 'ddad-lunio'r' darn, fel ffordd o ymchwilio i ddehongliadau sefydledig neu fwriadau artistig, hyd yn oed eu herio, ac yn cael eu hannog i arbrofi. Caniateir i ddysgwyr olygu, ychwanegu neu dynnu deialog a/neu gymeriadau allan fel ffordd o greu bwriadau artistig gwreiddiol y dysgwyr eu hunain. Fodd bynnag, rhaid gweld cynnwys sylweddol y mae'n bosibl ei adnabod o'r darn gwreiddiol yn y darn. Rhaid i ddysgwyr sicrhau bod rhwng 30% a 70% o'r darn terfynol wedi'i greu o destun sy'n dod o'r darn 10-15 munud a astudiwyd. Dylai gweddill y darn ddatblygu o'r testun a astudiwyd. Dylai dysgwyr ymarfer a mireinio eu darn ar gyfer y perfformiad.

© WJEC CBAC Ltd.

## 3. Myfyrio

Mae'n ofynnol i ddysgwyr esbonio'r broses o greu eu darn o theatr, gan amlinellu sut maent yn **cymhwyso** ymchwil o gam 1 at ddatblygiad y darn yng ngham 2. I'r perwyl hwn, mae'n ofynnol i ddysgwyr lunio **cofnod creadigol** sy'n esbonio:

1. sut mae syniadau yn cael eu creu a'u datblygu i gyfleu ystyr fel rhan o'r broses o wneud theatr, gan gynnwys:
    - sut mae confensiynau, ffurfiau a thechnegau'n cael eu defnyddio yn y darn
    - sut mae syniadau'n cael eu creu, eu datblygu a'u mireinio

2. y cysylltiadau rhwng theori ddramatig ac ymarfer, gan gynnwys ymchwil ar y darn yn ei gyd-destun (cam 1a) ac ymchwil ar yr ymarferwr (cam 1b) neu'r cwmni a sut mae'r ymchwil perthnasol yn cael ei chymhwyso at y darn.

Dylai'r cofnod creadigol gyfiawnhau penderfyniadau a wnaed yn ystod y broses yn llawn. Fodd bynnag, **ni** ddylai hwn fod yn sylwebaeth ddisgrifiadol o'r cyfnod ymarfer nac yn werthusiad o'r darn. Dylai dysgwyr ddewis yn ofalus y wybodaeth sy'n berthnasol i bwyntiau 1 a 2 ar y dudalen flaenorol. Dylai'r cofnod creadigol fod rhwng 1000 a 1200 o eiriau o nodiadau a/neu ryddiaith barhaus. Gall ymgeiswyr hefyd lunio eu cofnod creadigol fel blog wedi'i olygu'n addas neu fel recordiad clyweledol rhwng **pump** ac **wyth** munud. Gall y cofnod creadigol gynnwys rhai o'r canlynol neu bob un ohonynt, fel y bo'n briodol i'r darn:

- ymchwil anodedig
- diagramau
- ffotograffau
- brasluniau
- siartiau
- cyfryngau digidol, gan gynnwys recordiadau byr o adrannau o ymarfer neu ddeunydd sy'n briodol i'r maes sgiliau, e.e., clipiau sain. Ni ddylai'r rhain fod yn fwy na **munud o hyd.**

## 4. Gwireddu

Rhaid i ddysgwyr wireddu eu perfformiad neu ddyluniad terfynol. Bydd amseriad y darn yn dibynnu ar nifer yr actorion ym mhob grŵp a dylai fod fel a ganlyn:

2 actor 5-10 munud
3 actor 7-12 munud
4 actor 9-14 munud
5 actor 11-16 munud.

Rhaid i bob actor ymgysylltu'n llawn â'r perfformwyr eraill ar y llwyfan am **o leiaf 5 munud** ym mhob perfformiad er mwyn rhyngweithio'n ystyrlon.

Asesir ymgeiswyr dylunio ar y dyluniad ei hun a gall y cyfarpar technegol gael ei weithredu gan rywun arall. Mae'r rhestr ganlynol yn cynnwys y **gofynion lleiaf** ar gyfer y dyluniad y mae'n rhaid eu gwireddu yn y perfformiad byw.

© WJEC CBAC Ltd.

**Dylunio goleuo**
Rhaid i ddysgwyr gynhyrchu dyluniad goleuo ynghyd â chynllun llawr o'r set/gofod gydag o leiaf 8 cyflwr gwahanol gan gynnwys:

- lliwiau (e.e. defnyddio hidlyddion, geliau, gobos gwydr)
- dwyseddau a hyd pyliadau
- safleoedd llusernau (gyda chydnabyddiaeth glir o'r ardaloedd actio gwahanol)
- defnyddio elfennau goleuo e.e. llusernau, gobos, drysau ysgubor, irisau, sgrolwyr, symudyddion, prismau, gobos â motor, defnydd o fideo (sain/fideo)

**Dylunio sain**
Rhaid i ddysgwyr gynhyrchu dyluniad sain gydag o leiaf 8 ciw gwahanol. Dylai'r dyluniad gynnwys:

- defnyddio effeithiau sain wedi'u recordio ymlaen llaw (defnydd posibl o gerddoriaeth i greu awyrgylch)
- defnyddio bwrdd sain/desg gymysgu i gymysgu elfennau sain
- defnyddio meddalwedd i greu sain e.e. Audacity, QLab
- defnyddio elfennau sain e.e. traw, lefel y sain, cyfeiriad, hyd, atsain, datsain, afluniad, haenu effeithiau sain, montage.

**Dylunio set (gan gynnwys propiau)**
Rhaid i ddysgwyr gynhyrchu dyluniad set gan gynnwys cynlluniau llawr perthnasol wedi'u lluniadu wrth raddfa, gan ddangos cynllun cyffredinol pob set o uchod, a/neu ddyluniad 3D o fodel digidol wrth raddfa, gan gynnwys:

- lleoli'r dodrefn a phropiau mwy o faint
- 'brasfodel' perthnasol o'r set ar gyfer y perfformiad gan gynnwys cynrychioliadau priodol o lefelau, dodrefn, propiau cymhleth
- propiau ymarferol ar gyfer y perfformiad
- defnyddio elfennau set e.e. lefelau, darnau fflat o'r set, safle'r gynulleidfa, dyluniad y gofod cyfan, defnyddio gwead, lliw, siâp.

**Dylunio gwisgoedd (gan gynnwys gwallt a cholur)**
Rhaid i ddysgwyr gynhyrchu gwisgoedd llawn ar gyfer o leiaf **ddau** actor, gan gynnwys:

- set o luniadau/dyluniadau
- colur ar gyfer y ddau actor hynny gan gynnwys dyluniad gwallt lle y bo'n berthnasol
- defnydd o elfennau gwisgoedd e.e. ffabrig, gwead, lliw, pwysau.

## 5. Gwerthuso

Ar ôl cwblhau'r perfformiad, mae'n ofynnol i ddysgwyr ddadansoddi a gwerthuso'r perfformiad neu'r dyluniad terfynol. Rhaid i'r gwerthusiad fod rhwng 800 a 1200 o eiriau a rhaid dadansoddi a gwerthuso'r canlynol:

- effeithiolrwydd y perfformiad/dyluniad terfynol wedi'i wireddu mewn perfformiad
- eu sgiliau perfformio neu ddylunio, yn cynnwys eu cyfraniad nhw at berfformiad y darn.

© WJEC CBAC Ltd.

## Asesu

Mae Uned 1 yn cael ei hasesu'n fewnol a'i safoni'n allanol. Mae'n asesu:

- **Camau 1-3: *Ymchwilio, Datblygu a Myfyrio* (AA1, 30 marc)**
  *Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr fel rhan o'r broses o wneud theatr, gan wneud cysylltiadau rhwng theori ddramatig ac ymarfer.*
  Asesir y cofnod creadigol a'r perfformiad a'r dyluniad **gyda'i gilydd** i roi **un** marc ar gyfer AA1.1a ac AA1.1b.

- **Cam 4: *Gwireddu* (AA2, 45 marc)**
  *Cymhwyso sgiliau theatrig i wireddu bwriadau artistig mewn perfformiad byw*
  Asesir hyn drwy wireddu'r perfformiad neu'r dyluniad terfynol.

- **Cam 5: *Gwerthuso* (AA4, 15 marc)**
  *Dadansoddi a gwerthuso eu gwaith eu hunain.*
  Asesir hyn drwy'r gwerthusiad.

Rhaid i bob dysgwr gynhyrchu:

1. perfformiad neu ddyluniad terfynol wedi'i recordio'n glyweledol[1] o safbwynt y gynulleidfa
2. cofnod creadigol
3. gwerthusiad.

### Canllawiau

Mae gwybodaeth ychwanegol i'w gweld yn adran 3.2, trefniadau ar gyfer asesiad di-arholiad, ac yn yr atodiadau sy'n cynnwys:

- rhestr o destunau ar gyfer Uned 1 (Atodiad A)
- rhestr o ymarferwyr theatr a chwmnïau theatr addas (Atodiad B)
- gridiau asesu ar gyfer Uned 1 (Atodiad C)
- canllawiau ar gyfer asesu Uned 1 (Atodiad Ch).

[1] Mae angen un recordiad o ddarn pob grŵp. Nid oes angen darparu recordiad ar gyfer pob dysgwr unigol. Mae'n rhaid llwytho gwaith dysgwyr i fyny drwy system e-bortffolio CBAC. Dylai unrhyw arteffactau mawr, fel gwisg neu fodel o set gael eu ffotograffio neu eu ffilmio. Dylai'r arteffact ei hun gael ei gadw yn y ganolfan a gofynnir amdano os bydd angen.

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 2

## Testun mewn Theatr

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
16% o'r cymhwyster
60 marc

Yn yr uned hon, mae'n ofynnol i ddysgwyr astudio **un** testun cyflawn. Atgoffir canolfannau fod yn rhaid i'r pum testun a astudir ar gyfer y cymhwyster hwn yn ei gyfanrwydd (neu ddau destun a astudir ar gyfer UG) gynrychioli amrywiaeth o gyd-destunau cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol a dylai canolfannau ystyried yn ofalus eu dewis o destunau ym mhob uned er mwyn sicrhau eu bod yn cwmpasu amrywiaeth o gyd-destunau. Bydd yr holl destunau ar y rhestr i'w hastudio yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd a'u diweddaru pan fo angen.

Yn Uned 2, bydd dysgwyr yn cael cyfle i arddangos eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau wrth ddehongli testun ar gyfer perfformiad mewn arholiad ysgrifenedig. Rhaid i ddysgwyr werthuso theatr fyw hefyd. Anogir dysgwyr i gyflawni'r uned hon mewn ffordd **ymarferol** fel actor, dylunydd a chyfarwyddwr.

Rhaid i ddysgwyr ddewis **un** testun o'r rhestr isod. Bydd y cwestiynau'n cyfeirio'n benodol at ddarnau ac felly rhaid mynd â **chopi glân** (heb ei anodi) o'r testun i mewn i'r arholiad.

Rhaid defnyddio'r testunau canlynol yn yr arholiad o 2025 ymlaen.

- ***A Doll's House (Tŷ Dol)***, Tanika Gupta (bydd ar gael i'w lawrlwytho'n ddigidol o wefan ddiogel CBAC o fis Mawrth 2024)
- ***Y Cylch Sialc***, Bertolt Brecht (bydd ar gael i'w lawrlwytho'n ddigidol o wefan ddiogel CBAC o fis Mawrth 2024)
- ***Leave Taking (Ymadael)***, Winsome Pinnock (bydd ar gael i'w lawrlwytho'n ddigidol o wefan ddiogel CBAC o fis Mawrth 2024)
- ***Wyneb yn Wyneb***, Meic Povey (Atebol)
- ***The Weir (Yr Argae)***, Conor McPherson (bydd ar gael i'w lawrlwytho'n ddigidol o wefan ddiogel CBAC o fis Mawrth 2024)
- ***Once (Unwaith)***, Enda Walsh, (bydd ar gael i'w lawrlwytho'n ddigidol o wefan ddiogel CBAC o fis Mawrth 2024)
- ***Lovesong (Cân Serch)***, Abi Morgan (bydd ar gael i'w lawrlwytho'n ddigidol o wefan ddiogel CBAC o fis Mawrth 2024)

Rhaid i'r canolfannau sicrhau bod y fersiwn o'r ddrama a ddefnyddir i'w astudio wedi'i ddosbarthu gan y cyhoeddwr a'i ysgrifennu gan yr unigolyn (unigolion) a nodir yn y fanyleb.

Rhaid i ddysgwyr ystyried:

- y prosesau a'r arferion theatrig sy'n gysylltiedig â dehongli a pherfformio theatr, gan gynnwys arddull perfformio
- sut mae confensiynau, ffurfiau a thechnegau yn cael eu defnyddio mewn drama a theatr fyw i greu ystyr, gan gynnwys:
    - dylunio set, gwisgoedd, gwallt, colur, goleuo, sain a phropiau
    - defnyddio gofod perfformio a pherthnasau gofodol ar lwyfan
    - dehongliad lleisiol a chorfforol y perfformiwr o gymeriad
    - perthnasau rhwng perfformwyr a chynulleidfa
- sut mae dewisiadau creadigol ac artistig yn dylanwadu ar y ffordd y mae ystyr yn cael ei gyfleu i gynulleidfa, gan gynnwys drwy'r llwyfannu

© WJEC CBAC Ltd.

- sut mae testunau perfformio yn cael eu llunio i gael eu perfformio, gan gyfleu ystyr drwy:
  - strwythur
  - iaith
  - cyfarwyddiadau llwyfan
  - llunio cymeriadau
  - arddull y testun
  - technegau ymarfer
- sut mae  cyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol yn llywio testunau perfformio, a'u dehongli a'u perfformio ar gyfer cynulleidfa.

Noder: mae llwyfannu'n cyfuno rôl cyfarwyddwr a dylunydd. Yn fras mae llwyfannu'n cynnwys: arddull perfformio, defnyddio gofod perfformio a chydberthnasau gofodol ar lwyfan, dylunio set, gwisgoedd, colur, goleuo, sain a phropiau.

## Asesu

Mae Uned 2 yn asesu:

**AA3: 45 marc**
*Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae drama a theatr yn cael eu datblygu a'u perfformio.*

**AA4: 15 marc**
*Dadansoddi a gwerthuso gwaith eraill.*

Bydd dysgwyr yn ateb cyfres o gwestiynau strwythuredig ar y testun gosod a ddewiswyd ganddynt. Bydd y mwyafrif o'r cwestiynau yn seiliedig ar **ddarn** penodedig o'r testun. Fodd bynnag, bydd **un** cwestiwn sy'n asesu gwybodaeth a dealltwriaeth ehangach o'r testun. Bydd un cwestiwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddadansoddi a gwerthuso o leiaf **un** cynhyrchiad theatr fyw a welir fel rhan o'r cwrs a thrafod sut mae'r cynhyrchiad (au) wedi dylanwadu ar eu dewisiadau artistig mewn perthynas â'u testun gosod.

Yn yr arholiad hwn, asesir dysgwyr ar eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u defnydd o derminoleg pwnc arbenigol hefyd. Bydd ansawdd eu cyfathrebu ysgrifenedig, yn cynnwys sillafu, atalnodi a gramadeg yn cael ei asesu mewn un cwestiwn ymhob cyfres.

Dylai dysgwyr gyfeirio'n fanwl at y testun yn eu hatebion.

Rhaid i ddysgwyr ateb **bob** cwestiwn mewn perthynas â'u testun gosod.

Noder: rhaid mynd â chopi glân (heb ei anodi) o'r testun gosod a ddewiswyd i mewn i'r arholiad. Rhaid i ganolfannau sicrhau, pan fydd ymgeiswyr yn mynd i mewn i'r ystafell arholiadau, fod testunau ymgeiswyr yn cael eu gwirio er mwyn cadarnhau eu bod yn lân (heb unrhyw anodi). Rhaid hysbysu CBAC os bydd unrhyw dorri rheolau'n digwydd.

© WJEC CBAC Ltd.

# 2.2 UNEDAU U2

## Uned 3

### Testun ar Waith

Asesiad di-arholiad: wedi'i asesu'n allanol gan arholwr ymweld
36% o'r cymhwyster
120 marc

Mae'r uned hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddefnyddio ysgogiad wedi'i ddarparu gan CBAC i greu **dau** ddarn o theatr fyw: **un** darn wedi'i ddyfeisio gan ddefnyddio dulliau gweithio a thechnegau **naill ai** ymarferwr theatr dylanwadol **neu** gwmni theatr cydnabyddedig ac **un** darn o destun mewn arddull gwahanol i'r darn wedi'i ddyfeisio.

### Trefniadau grŵp

Gall dysgwyr ddewis cael eu hasesu **naill ai** ar actio **neu** ar ddylunio. Ar gyfer pob perfformiad, bydd dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau a fydd yn cynnwys rhwng **dau** a **phedwar** actor. Hefyd, gall pob grŵp gynnwys hyd at **ddau** ddylunydd ychwanegol, gyda phob un yn cynnig sgìl dylunio **gwahanol.** Rhaid i ddysgwyr sy'n dewis dylunio weithio gyda grŵp o actorion. Fodd bynnag, nid oes angen i bob grŵp actio weithio gyda dylunwyr. Rhaid i ddysgwyr sy'n dewis dylunio ddewis **un** opsiwn o'r rhestr ganlynol:

- dylunio goleuo
- dylunio sain
- dylunio set (gan gynnwys propiau)
- dylunio gwisgoedd (gan gynnwys gwallt a cholur).

Rhaid i ddylunwyr gyfrannu'n llawn at y broses o greu darn o theatr. Rhaid i ganolfannau roi ystyriaeth ofalus i'r cyfuniad o sgiliau dylunio mewn grŵp penodol, a'r dewis o destun ac ymarferwr neu gwmni ac arddull, gan sicrhau bod pob dysgwr yn gallu targedu AA1 ac AA2 ac arddangos eu lefel uchaf o sgiliau.

### Dewis testun addas

At ei gilydd, ar draws y pedair uned yn y fanyleb hon, bydd dysgwyr yn astudio **pum** testun perfformio gwahanol. Rhaid i'r testunau a ddewisir ar gyfer y cymhwyster gynrychioli amrywiaeth o gyd-destunau cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol. Yn yr uned hon, rhaid i bob grŵp ddewis **un** testun. Rhaid sicrhau bod y testun a ddewisir wedi cael ei gomisiynu'n broffesiynol a/neu ei gynhyrchu'n broffesiynol. Gall dysgwyr ddewis unrhyw destun addas gan gynnwys y rhai sydd i'w gweld ar y rhestr yn Atodiad A. Caniateir i ddysgwyr hefyd ddewis testun nad ydynt yn ei astudio ar gyfer naill ai Uned 2 neu Uned 4 o'r rhestrau perthnasol o destunau gosod. Bydd dysgwyr yn astudio darn 10-15 munud o'r testun, yng nghyd-destun y testun cyfan. Gall pob grŵp o ddysgwyr ddewis darn neu destun gwahanol, er y caniateir i grwpiau gwahanol hefyd ddewis yr un darn neu destun. Dylai athrawon arwain y broses er mwyn sicrhau bod y darnau a ddewisir yn addas ar gyfer y cyfuniad o ddysgwyr, gan gynnwys dylunwyr, ym mhob grŵp. Dylai canolfannau hefyd sicrhau bod maint y grŵp a'r dewis o destunau yn galluogi dysgwyr i fabwysiadu arferion gweithio diogel.

Mae **pedwar** cam i'r uned hon.

© WJEC CBAC Ltd.

## 1. Ymchwilio

a. Rhaid i ddysgwyr astudio'r darn o'u dewis yng nghyd-destun y testun cyfan. Wrth ymchwilio i'r testun dylai dysgwyr ystyried sut mae testunau perfformio'n cael eu llunio i gael eu perfformio, gan gyfleu ystyr drwy:

- strwythur
- llunio cymeriad
- arddull y testun.

b. Mae'n ofynnol hefyd i ddysgwyr ymchwilio i dechnegau a dulliau gweithio **naill ai** ymarferwr theatr dylanwadol **neu** gwmni theatr cydnabyddedig. Rhaid i'r ymarferwr neu gwmni a ddewisir fod yn **wahanol** i'r un a ddewiswyd ar gyfer Uned 1. Mae rhestr o ymarferwyr theatr a chwmnïau theatr addas i'w gweld yn Atodiad B, canllaw yn unig yw hwn. Gall dysgwyr ddewis ymarferwr theatr neu gwmni theatr gwahanol os dymunant. Os bydd gennych unrhyw amheuaeth ynghylch priodoldeb yr ymarferwr neu gwmni theatr o'u dewis, cysylltwch â CBAC am gyngor. Mewn perthynas â'r ymarferwr neu gwmni o'u dewis, dylai dysgwyr ystyried:

- eu cyd-destun hanesyddol, cymdeithasol a diwylliannol
- eu pwrpas a'u harferion theatrig
- eu bwriadau artistig
- natur arloesol eu dull gweithredu
- eu dulliau gweithio
- eu harddull theatrig a'u defnydd o gonfensiynau
- eu cydweithrediad ag ymarferwyr eraill/eu dylanwad arnynt.

c. Mae'n ofynnol i ddysgwyr gymryd rhan fel aelod o gynulleidfa gan weld o leiaf **un** cynhyrchiad o theatr fyw. Argymhellir bod dysgwyr yn manteisio ar y cyfle i wylio cynhyrchiad proffesiynol; fodd bynnag, gellir defnyddio gwaith amaturiaid hefyd. Gall dysgwyr ddefnyddio'r un cynhyrchiad theatr fyw neu gynhyrchiad theatr fyw gwahanol i'r hyn a welwyd ar gyfer Unedau 2 a 4. Dylai canolfannau sicrhau bod cwmpas ac ansawdd unrhyw waith sy'n cael ei weld wrth baratoi ar gyfer yr asesiad hwn yn addas er mwyn cyd-fynd â gofynion yr asesiad. Nid oes rhaid iddo fod yn gynhyrchiad o'r testun(au) a ddewiswyd na defnyddio technegau'r ymarferwr neu gwmni a ddewiswyd. Dylai dysgwyr ystyried:

- sut mae elfennau o gynhyrchiad theatr fyw yn dylanwadu ar eu penderfyniadau creadigol nhw gan gynnwys:
  - dehongli'r testun
  - defnyddio elfennau dylunio
  - arddulliau perfformio.

## 2. Datblygu

Bydd dysgwyr yn cymryd rhan yn y broses o greu a datblygu **dau** ddarn o theatr mewn ymateb i ysgogiad (gweler cam 3 ar gyfer hyd pob darn). Bydd dysgwyr yn dewis **un** ysgogiad o ddewis o bedwar y bydd CBAC yn eu darparu bob blwyddyn. Bydd y deunyddiau ysgogi yn cael eu rhyddhau yn ystod wythnos gyntaf mis Mehefin yn y flwyddyn y mae disgwyl i'r asesiad gael ei wneud. Mae deunyddiau ysgogi enghreifftiol i'w gweld yn Atodiad D. Mae'n rhaid i ddysgwyr greu:

© WJEC CBAC Ltd.

1. darn **wedi'i ddyfeisio** yn seiliedig ar waith yr ymarferwr theatr neu'r cwmni theatr y dewiswyd eu hastudio yng ngham 1. Rhaid gweld elfennau clir o waith yr ymarferwr neu'r cwmni yn y darn.

2. **darn** o'r testun y dewiswyd ei astudio yng ngham 1 mewn **arddull** a ddewiswyd gan y dysgwyr. Gall dysgwyr ymchwilio'n rhydd i gysyniadau arddulliol amrywiol ac nid oes angen iddynt gael eu cyfyngu gan un fath o arddull neu ddylanwad. Fodd bynnag, rhaid i'r darn fod mewn arddull sy'n wahanol i'r darn wedi'i ddyfeisio.

Dylai dysgwyr ystyried dylanwad y theatr fyw a welwyd yn rhan o gam 2 wrth ddatblygu'r ddau ddarn.

### 3. Gwireddu

Rhaid i'r **ddau** ddarn o theatr gael eu perfformio'n fyw ar gyfer yr arholwr ymweld ar ddyddiad y cytunwyd arno gyda CBAC. Asesir dysgwyr ar y broses o greu a datblygu theatr ac ar y perfformiad neu'r dyluniad terfynol. Bydd amseroedd y darn yn seiliedig ar nifer yr actorion ym mhob grŵp a rhaid i bob darn ddilyn y rheolau canlynol:

2 actor 5-10 munud
3 actor 7-12 munud
4 actor 9-14 munud.

Rhaid i bob actor ymgysylltu'n llawn â'r perfformwyr eraill ar y llwyfan am **o leiaf 5 munud** ym mhob perfformiad er mwyn gallu rhyngweithio'n ystyrlon.

Asesir ymgeiswyr dylunio ar y dyluniad ei hun a gall y cyfarpar technegol gael ei weithredu gan rywun arall. Fodd bynnag, rhaid i'w dyluniad gael ei wireddu yn y perfformiad byw. Rhaid i ddysgwyr sy'n dewis dylunio hefyd roi cyflwyniad **5-10 munud** o'u dyluniad i'r arholwr. **Ni** fydd sgiliau cyflwyno yn cael eu hasesu; mae'n gyfle i ddysgwyr esbonio a chyflwyno eu dyluniad i'r arholwr.

Mae'r rhestr ganlynol yn cynnwys y **gofynion sylfaenol** y mae'n rhaid eu gwireddu ym mhob perfformiad byw.

**Dylunio goleuo**
Rhaid i ddysgwyr gynhyrchu dyluniad goleuo ynghyd â chynllun llawr o'r set/gofod gydag o leiaf 8 cyflwr gwahanol gan gynnwys:

- lliwiau (e.e. defnyddio hidlyddion, geliau, gobos gwydr)
- dwyseddau a hyd pyliadau
- safleoedd llusernau (gyda chydnabyddiaeth glir o'r ardaloedd actio gwahanol)
- defnyddio elfennau goleuo e.e. llusernau, gobos, drysau ysgubor, irisau, sgrolwyr, symudyddion, prismau, gobos â motor, defnydd o fideo (sain/fideo)

**Dylunio sain**
Rhaid i ddysgwyr gynhyrchu dyluniad sain gydag o leiaf 8 ciw gwahanol. Dylai'r dyluniad gynnwys:

- defnyddio effeithiau sain wedi'u recordio ymlaen llaw (defnydd posibl o gerddoriaeth i greu awyrgylch)
- defnyddio bwrdd sain/desg gymysgu i gymysgu elfennau sain

© WJEC CBAC Ltd.

- defnyddio meddalwedd i greu sain e.e. Audacity, QLab
- defnyddio elfennau sain e.e. traw, lefel y sain, cyfeiriad, hyd, datsain, atsain, afluniad, haenu effeithiau sain, montage.

**Dylunio set (gan gynnwys propiau)**
Rhaid i ddysgwyr gynhyrchu dyluniad set gan gynnwys cynlluniau llawr perthnasol wedi'u lluniadu wrth raddfa, gan ddangos o uchod gynllun cyffredinol pob set, a/neu ddyluniad 3D o fodel digidol wrth raddfa, gan gynnwys:

- lleoli'r dodrefn a phropiau mwy o faint
- 'brasfodel' perthnasol o'r set ar gyfer y perfformiad gan gynnwys cynrychioliadau priodol o lefelau, dodrefn, propiau cymhleth.
- propiau ymarferol ar gyfer y perfformiad
- defnyddio elfennau set e.e. lefelau, darnau fflat o'r set, safle'r gynulleidfa, dyluniad y gofod cyfan, defnyddio gwead, lliw, siâp.

**Dylunio gwisgoedd (gan gynnwys gwallt a cholur)**
Rhaid i ddysgwyr gynhyrchu gwisgoedd llawn ar gyfer o leiaf **ddau** actor, gan gynnwys:

- set o luniadau/dyluniadau
- colur ar gyfer y ddau actor hynny gan gynnwys dyluniad gwallt lle y bo'n berthnasol
- awgrymiadau am wisgoedd ar gyfer gweddill yr actorion yn y perfformiad
- defnydd o elfennau gwisgoedd e.e. ffabrig, gwead, lliw, pwysau.

## 4. Myfyrio a Gwerthuso

Ar ôl cwblhau'r gwaith ymarferol, bydd dysgwyr yn ysgrifennu adroddiad proses a gwerthuso ar y **ddau** ddarn. Bydd gan ddysgwyr wythnos i gwblhau'r adroddiad. Mae tair adran yn yr adroddiad ac ni ddylai fod yn fwy na 3000 o eiriau.

1. **Cysylltiadau rhwng theori ac ymarfer**, gan gynnwys esbonio'r canlynol:
    - sut cafodd eu gwaith ymarferol eu hunain ei lywio gan ymchwil perthnasol am yr ymarferwr theatr neu'r cwmni theatr, a'r arddull o'u dewis
    - sut cafodd yr ysgogiad ei ddefnyddio i ddehongli'r testun ac i ddarparu syniadau ar gyfer gwaith wedi'i ddyfeisio.

    Gall adran 1 gynnwys swm cyfyngedig o dystiolaeth ychwanegol fel ffotograffau neu ddiagramau lle bo angen i ddangos y cysylltiadau rhwng theori ac ymarfer.

2. **Dadansoddi a gwerthuso proses**, gan gynnwys y canlynol:
    - sut cafodd confensiynau dramatig neu dechnegau dylunio eu defnyddio i greu ystyr
    - sut cafodd y darn ei fireinio a'i ddiwygio i'w berfformio
    - sut gwnaeth theatr fyw ddylanwadu ar eu gwaith eu hunain.

3. **Dadansoddi a gwerthuso'r perfformiad neu'r dyluniad terfynol i wireddu bwriadau artistig,** gan gynnwys:
    - effeithiolrwydd eu sgiliau perfformio neu ddylunio gan gynnwys eu cyfraniad nhw at y darn
    - effeithiolrwydd yr ymarferwr neu'r cwmni a'r technegau arddulliol yn y perfformiad

© WJEC CBAC Ltd.

## Asesu

Bydd arholwr ymweld yn asesu Uned 3 yn allanol, gan asesu'r canlynol:

- **Camau 1-2: *Ymchwilio a Datblygu (AA1.1a,* 30 marc*)***
  *Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr fel rhan o'r broses o wneud theatr.*
  Asesir hyn drwy'r perfformiad neu'r dyluniad terfynol (15 marc am bob darn).

- **Cam 3: *Gwireddu* (AA2, 60 marc)**
  *Cymhwyso sgiliau theatrig i wireddu bwriadau artistig mewn perfformiad byw*
  Asesir hyn drwy'r perfformiad neu'r dyluniad terfynol (30 marc am bob darn).

- **Cam 4: *Myfyrio a Gwerthuso* (AA1.1b ac AA4, 30 marc)**
  *Gwneud cysylltiadau rhwng theori ddramatig ar ymarfer* (10 marc).
  *Dadansoddi a gwerthuso eu gwaith eu hunain* (20 marc).
  Asesir hyn drwy adroddiad proses a gwerthuso.

  Rhaid i bob dysgwr:

  1. gwireddu'r **ddau** berfformiad neu ddyluniad yn fyw ar gyfer arholwr sy'n ymweld. Rhaid i'r ganolfan gofnodi pob darn yn glyweledol[2] o safbwynt y gynulleidfa
  2. cwblhau adroddiad proses a gwerthuso y mae'n rhaid ei gyflwyno gyda'r recordiad o fewn **wythnos** i'r asesiad ymarferol.

Yn ogystal, rhaid i'r ymgeiswyr dylunio roi cyflwyniad **5-10 munud** o'u dyluniad i'r arholwr ymweld. Ni fydd y cyflwyniad hwn yn cael ei asesu. Mae'n angenrheidiol, fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod yr arholwr yn deall y dyluniad yn llawn.

### Canllawiau

Mae adran 3.2 yn rhoi gwybodaeth ychwanegol am drefniadau ar gyfer asesiad di-arholiad ac mae'r atodiadau hefyd yn cynnwys y canlynol:

- rhestr o destunau addas (Atodiad A)
- rhestr o ymarferwyr theatr a chwmnïau theatr addas (Atodiad B)
- deunyddiau ysgogi enghreifftiol ar gyfer Uned 3 (Atodiad D).
- gridiau asesu ar gyfer Uned 3 (Atodiad Dd).

[2] Mae angen un recordiad o ddarn pob grŵp. Nid oes angen darparu recordiad ar gyfer pob dysgwr unigol. Mae’n rhaid llwytho gwaith dysgwyr i fyny drwy system e-bortffolio CBAC.

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 4

**Testun mewn Perfformiad**
Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 30 munud
24% o'r cymhwyster
95 marc

Yn yr uned hon, mae'n ofynnol i ddysgwyr astudio **dau** destun cyflawn. Atgoffir canolfannau fod yn rhaid i'r pum testun sy'n cael eu hastudio ar gyfer y cymhwyster hwn yn ei gyfanrwydd gynrychioli amrywiaeth o gyd-destunau cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol a dylai canolfannau ystyried yn ofalus eu dewis o destunau ym **mhob** uned er mwyn sicrhau eu bod yn ymdrin ag amrywiaeth o gyd-destunau. Adolygir pob testun ar y rhestr i'w hastudio o bryd i'w gilydd a'r rhestr yn cael ei diweddaru pan fo angen.

Yn Uned 4, rhoddir cyfle i ddysgwyr arddangos eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau wrth ddehongli testunau ar gyfer perfformiad mewn arholiad ysgrifenedig. Anogir dysgwyr i gyflawni'r uned hon mewn ffordd **ymarferol** fel actor, dylunydd a chyfarwyddwr, ac fel aelod hyddysg o gynulleidfa theatr. I'r perwyl hwn, mae'n ofynnol i ddysgwyr wylio o leiaf **ddau** gynhyrchiad theatr fyw i lywio eu dealltwriaeth. Gallant ddefnyddio'r un cynyrchiadau ar gyfer Unedau 2, 3 a 4 os dymunant.

Bydd rhai cwestiynau'n cyfeirio'n benodol at ddarnau o'r testun ac felly rhaid mynd â **chopi glân** (heb ei anodi) o'r **ddau** destun i mewn i'r arholiad.

## Adrannau A a B

Rhaid i ddysgwyr ddewis **dau** destun o'r rhestr isod.

Rhaid defnyddio'r argraffiadau canlynol yn yr arholiad hyd at 2025:

- ***Diwrnod ym Marwolaeth Jo Ŵy,*** Peter Nichols (fersiwn digidol ar gael ar wefan Porth CBAC)
- ***Sweeney Todd,*** Stephen Sondheim (fersiwn digidol ar gael ar wefan Porth CBAC)
- ***Absenoldeb Rhyfel,*** David Hare (fersiwn digidol ar gael ar wefan Porth CBAC)
- ****Mametz,*** Owen Sheers (Faber)
- ****Radicaleiddiad Bradley Manning,*** Tim Price (fersiwn digidol ar gael ar wefan Porth CBAC)
- ***Un Nos Ola Leuad,*** Caradog Prichard, addasiad Bara Caws (fersiwn digidol ar gael ar wefan Porth CBAC).

**Mae'r testunau hyn yn cynnwys golygfeydd o natur aeddfed.*

Rhaid defnyddio'r testunau canlynol yn yr arholiad o 2026 ymlaen:

- ***The Trial,*** Stephen Berkoff (bydd ar gael i'w lawrlwytho'n ddigidol o wefan Porth CBAC)
- ***Blues for an Alabama Sky,*** Pearle Cleage (bydd ar gael i'w lawrlwytho'n ddigidol o wefan Porth CBAC)
- ***One Man Two Guvnors,*** Carlo Goldoni (addasiad Richard Bean) (bydd ar gael i'w lawrlwytho'n ddigidol o wefan Porth CBAC)
- ***The Curious Incident of the Dog in the Night-Time,*** Mark Haddon (addasiad Simon Stephens) (bydd ar gael i'w lawrlwytho'n ddigidol o wefan Porth CBAC)
- ***The Watsons,*** Laura Wade (bydd ar gael i'w lawrlwytho'n ddigidol o wefan Porth CBAC)
- ***Nyrsys,*** Bethan Marlow (Cyhoeddiad digidol i'w ddarparu ar wefan Porth CBAC)

© WJEC CBAC Ltd.

- ***Our Generation,*** Alecky Blythe (bydd ar gael i'w lawrlwytho'n ddigidol o wefan Porth CBAC)

Rhaid i’r canolfannau sicrhau bod y fersiwn o’r ddrama a ddefnyddir i’w astudio wedi’i ddosbarthu gan y cyhoeddwr a’i ysgrifennu gan yr unigolyn (unigolion) a nodir yn y fanyleb.

## Asesu

Bydd y **ddau** destun yn cael eu hasesu ym mhob cyfres arholiadau a bydd yr holl destunau ar gael i'w hateb yn adrannau A a B. Yn Adran A, rhaid i ddysgwyr ateb pob cwestiwn mewn perthynas ag **un** testun gosod. Yn Adran B, rhaid i ddysgwyr ateb pob cwestiwn mewn perthynas ag **un** testun gosod. Fodd bynnag, rhaid i ddysgwyr ateb ar destun gosod **gwahanol** yn adrannau A a B.

Yn yr arholiad hwn, asesir dysgwyr ar eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u defnydd o derminoleg pwnc arbenigol hefyd. Dylai dysgwyr wneud cyfeiriadau manwl at y testunau yn eu hatebion.

Noder: rhaid mynd â chopi glân (heb ei anodi) o'r testun gosod a ddewiswyd ar gyfer Adrannau A a B i mewn i'r arholiad. Rhaid i ganolfannau sicrhau, pan fydd ymgeiswyr yn mynd i mewn i'r ystafell arholiadau, fod eu testunau yn cael eu gwirio er mwyn cadarnhau eu bod yn lân (heb unrhyw anodi). Rhaid hysbysu CBAC os bydd unrhyw dorri rheolau'n digwydd.

Mae Uned 4 yn asesu'r canlynol mewn perthynas â'r testunau.

**AA3:**
*Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae drama a theatr yn cael eu datblygu a'u perfformio.*

**AA4:**
*Dadansoddi a gwerthuso gwaith eraill.*

Mae asesiad AA3 ac AA4 wedi'i rannu rhwng y ddwy adran o'r papur arholiad.

### Adran A: 55 marc

Cwestiynau yn archwilio sut gellir perfformio'r testun yn y theatr. Bydd disgwyl i ddysgwyr ymdrin â'r testun fel perfformwyr theatr, cyfarwyddwyr a dylunwyr. Dylai dysgwyr ystyried:

- dehongliad cymeriad (e.e. drwy gymell a rhyngweithio)
- technegau ymarfer
- sgiliau perfformio lleisiol a chorfforol gan gynnwys rhyngweithio
- mathau gwahanol o lwyfan (bwa prosceniwm, theatr ar ffurf cylch, traws ac ymwthiol)
- lleoliad cymeriadau a'u symudiadau/pellter rhyngddynt (cynefineg)
- elfennau dylunio gan gynnwys:
    - sain
    - goleuo
    - set a phropiau
    - gwisgoedd
        - gwallt
        - colur

© WJEC CBAC Ltd.

- sut mae theatr fyw, fydd yn cael ei gweld fel rhan o'r cwrs, yn dylanwadu ar eu penderfyniadau a'u dealltwriaeth o'r modd y mae drama a theatr yn cael eu datblygu a'u perfformio.

Noder: mae llwyfannu'n cyfuno rôl cyfarwyddwr a dylunydd. Yn fras mae llwyfannu'n cynnwys: arddull perfformio, defnyddio gofod perfformio a chydberthnasau gofodol ar lwyfan, dylunio set, gwisgoedd, colur, goleuo, sain a phropiau.

## Adran B: 40 marc

Cwestiwn traethawd am sut gellir addasu'r testun ar gyfer cynulleidfa gyfoes. Dylai dysgwyr ystyried:

- cyd-destun cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol y testun
- dylanwad ymarfer theatr cyfoes
- sut mae theatr fyw, fydd yn cael ei gweld fel rhan o'r cwrs, yn dylanwadu ar eu penderfyniadau a'u dealltwriaeth o sut mae drama a theatr yn cael eu datblygu a'u perfformio
- sut mae'r testun yn ymdrin â'i thema.

Yn un o'r cwestiynau, naill ai yn Adran A neu'n Adran B, mae'n ofynnol i ddysgwyr ddangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r testun cyfan.

Mae'n ofynnol i ddysgwyr ddadansoddi agwedd ar theatr fyw yn Adran A ac yn Adran B. Gallant ddefnyddio'r un cynhyrchiad (au) byw neu gynhyrchiad (au) byw gwahanol ym mhob adran.

Asesir ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig, gan gynnwys sillafu, atalnodi a gramadeg, yn Adran B.

© WJEC CBAC Ltd.

# 3 ASESU

## 3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u rhoi isod. Rhaid i ddysgwyr:

**AA1**
Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr fel rhan o'r broses o wneud theatr, gan wneud cysylltiadau rhwng theori ddramatig ac ymarfer

**AA2**
Cymhwyso sgiliau theatrig i wireddu bwriadau artistig mewn perfformiad byw

**AA3**
Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae drama a theatr yn cael eu datblygu a'u perfformio

**AA4**
Dadansoddi a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill.

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoli pob amcan asesu fel canran o'r Safon Uwch lawn, mae pwysoli'r UG mewn cromfachau.

| | **AA1** | **AA2** | **AA3** | **AA4** | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | 8% (20%) | 12% (30%) | – | 4% (10%) | **24%** |
| **Uned 2** | – | – | 12% (30%) | 4% (10%) | **16%** |
| **Uned 3** | 12% | 18% | – | 6% | **36%** |
| **Uned 4** | – | – | 17% | 7% | **24%** |
| Cyfanswm | **20%** | **30%** | **29%** | **21%** | **100%** |

Asesir ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig, gan gynnwys sillafu, atalnodi a gramadeg, mewn un cwestiwn yn Uned 2 ac yn Adran B yn Uned 4.

© WJEC CBAC Ltd.

# 3.2 Trefniadau ar gyfer asesiad di-arholiad

### Addasrwydd testunau

Mae'n ofynnol i ganolfannau gwblhau ffurflen yn nodi'r testunau a ddewiswyd ar gyfer y **pedair** uned yn Safon Uwch ac Unedau 1 a 2 yn unig ar gyfer UG. Rhaid cyflwyno'r wybodaeth hon i CBAC erbyn diwedd mis Ionawr yn ystod y flwyddyn academaidd y mae disgwyl i'r cymhwyster gael ei wneud. Mae hyn er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni'r gofyniad i ymdrin ag amrywiaeth o destunau o gyd-destunau cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol gwahanol a bod yr holl destunau a ddewisir yn ddigon heriol ar gyfer Safon Uwch Drama a Theatr. Felly rhaid i destunau Unedau 1 a 3 gael eu dewis er mwyn rhoi cyfle i:

- ymgeiswyr perfformio arddangos dehongliad/ailddehongliad o gymeriad
- ymgeiswyr dylunio arddangos y sgìl o'u dewis fel y nodir yn Adrannau 2.1 a 2.2
- pob ymgeisydd adlewyrchu'r ymarferwr ac arddull o'u dewis.

Rhaid i bob testun a ddewisir fod yn rhai sydd wedi cael eu comisiynu neu eu cynhyrchu'n broffesiynol. Os bydd gennych unrhyw amheuaeth ynghylch addasrwydd y testun neu lefel y galw, cysylltwch â CBAC am gyngor. Rhaid i bennaeth y ganolfan gymeradwyo'r testunau a ddewisir.

Mae'n ofynnol hefyd i ganolfannau anfon sgriptiau eu darnau wedi'u hailddehongli ar gyfer Uned 1 at y safonwr gan aroleuo'r llinellau sydd wedi'u cymryd o'u darn dethol nhw er mwyn helpu'r safonwr i ddeall sut mae'r testun wedi cael ei ailddehongli ar gyfer perfformiad ac i sicrhau eu bod wedi defnyddio rhwng 30% a 70% o'r testun o'u darn dethol.

### Uned 1: Gweithdy Theatr

**24% o'r cymhwyster**
Mae Uned 1 yn cael ei hasesu'n fewnol a'i safoni'n allanol gan CBAC.

### Asesu

Mae Uned 1 yn asesu AA1, AA2 ac AA4. Yr uchafswm marciau ar gyfer Uned 1 yw 90. Rhaid i athrawon ddefnyddio'r gridiau asesu a'r canllawiau a ddarperir yn Atodiadau C ac Ch o'r fanyleb hon wrth gynnal asesiad mewnol o Uned 1. Mae gridiau ar wahân ar gyfer ymgeiswyr perfformio a dylunio. Bwriedir i'r cynlluniau marcio gyflwyno system sy'n cysylltu'r amcanion asesu â'r marciau ac sy'n helpu i wahaniaethu'n glir rhwng y lefelau cyflawni amrywiol. Bydd y cynlluniau marcio o'r gwerth mwyaf pan fyddant yn cael eu defnyddio ar y cyd â'r canllawiau ac enghreifftiau asesedig o waith, y bydd CBAC yn eu darparu er mwyn helpu canolfannau i nodi ansawdd y gwaith sy'n gysylltiedig â'r bandiau marcio amrywiol. Rhaid i ddalennau blaen gael eu cwblhau ar gyfer pob dysgwr. Gall y darn gael ei gwblhau a'i asesu ar unrhyw adeg addas yn ystod y cwrs.

#### AA1

- Mae AA1 yn cael ei farcio allan o 30 marc.
- Rhaid i athrawon ystyried y dystiolaeth a gyflwynir yn y cofnod creadigol ar y cyd â'r dystiolaeth o'r perfformiad neu'r dyluniad i ddyfarnu **un** marc am bob un o AA1.1a ac AA1.1b.

© WJEC CBAC Ltd.

- Mae AA1.1a allan o 20 marc *(creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr fel rhan o'r broses o wneud theatr).*
- Mae AA1.1b allan o 10 marc *(gwneud cysylltiadau rhwng theori ddramatig ac ymarfer).*
- Os na chyflwynir cofnod creadigol na pherfformiad, ni ddylid dyfarnu marciau i ddysgwyr sy'n uwch na band 3 yn y colofnau ar gyfer AA1.1a ac AA1.1b.

**AA2**

- Asesir AA2 allan o 45 marc. Bydd yr asesiad ar sail y perfformiad neu'r dyluniad yn unig.
- Mewn perthynas ag ymgeiswyr dylunio, y dyluniad ei hun sy'n cael ei asesu a gall y cyfarpar technegol gael ei weithredu gan rywun arall.
- Mae hyd pob darn yn dibynnu ar nifer yr ymgeiswyr perfformio yn y grŵp.

| | |
|---|---|
| 2 actor | 5-10 munud |
| 3 actor | 7-12 munud |
| 4 actor | 9-14 munud |
| 5 actor | 11-16 munud. |

- Ni chosbir ymgeisydd am waith sydd o dan y terfyn amser. Ond, dylai canolfannau a dysgwyr hefyd nodi ei bod yn annhebygol y bydd marc sydd yn y bandiau marciau uwch yn cael ei ddyfarnu ar gyfer gwaith sydd o dan amser yn sylweddol gan na fydd digon o dystiolaeth o ddatblygiad a/neu ymgysylltiad â'r gynulleidfa efallai.
- Ni chosbir gwaith sy'n mynd y tu hwnt i'r terfyn amser. Ond, dylai canolfannau a dysgwyr nodi y dylid dim ond asesu gwaith sydd o fewn yr amseriadau a nodir uchod. Ni ddylid dyfarnu marciau unwaith y bydd terfyn yr amser perfformio wedi mynd heibio.
- Bydd y safonwr yn rhoi'r gorau i wylio perfformiad ar ôl iddo fynd y tu hwnt i'r terfyn amser. Dim ond y gwaith sydd wedi'i wylio ganddo fydd yn cael ei ystyried.

**AA4**

- Asesir AA4 allan o 15 marc.

## Goruchwylio a Monitro

- Nid oes cyfyngiad ar faint o amser y mae dysgwyr yn ei dreulio yn datblygu, ymarfer a mireinio eu gwaith ar gyfer Uned 1, gan gynnwys y Cofnod creadigol a'r gwerthusiad.
- Gall athrawon roi arweiniad a chymorth i ddysgwyr er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o ofynion yr asesiad a'r gridiau marcio.
- Gall athrawon roi cyngor am addasrwydd y dewis o ymarferwr ar y cyd â'r dewis o destun.
- Pan fydd y gwaith yn mynd rhagddo, rhaid i'r adborth gael ei gyfyngu i gyngor cyffredinol am yr hyn y mae angen ei wella. **Ni** ddylai athrawon roi arweiniad penodol ar sut i wneud y gwelliannau hyn.
- Yn ystod y cyfnod gweithio, rhaid i athrawon fonitro cynnydd y gwaith o leiaf unwaith er mwyn gallu dilysu'r gwaith fel gwaith y dysgwr ei hun.
- Ar ôl cwblhau'r gwaith a'i asesu'n derfynol, ni ellir gwneud unrhyw newidiadau pellach i'r gwaith.

© WJEC CBAC Ltd.

**Tystiolaeth asesu a dilysu**

Mae'n bwysig bod gwaith asesu'n cael ei fonitro'n drwyadl gan ganolfannau er mwyn sicrhau mai gwaith y dysgwyr eu hunain ydyw. Mae'n ofynnol i bob dysgwr lofnodi datganiad dilysu ar y ddalen glawr yn cadarnhau mai eu gwaith gwreiddiol nhw ydyw a rhaid i ganolfannau gydlofnodi eu bod wedi cymryd pob cam rhesymol i ddilysu hyn. Rhaid i bob dysgwr gwblhau dogfennaeth ddilysu, nid dim ond y dysgwyr hynny a ddewiswyd ar gyfer y sampl y bydd y safonwr yn ei weld. Ni fydd angen hysbysu CBAC am gamymddwyn a ganfuwyd cyn i'r dysgwr lofnodi'r datganiad dilysu ond rhaid ymdrin ag ef yn unol â gweithdrefnau mewnol y ganolfan. Rhaid i bob dysgwyr gyflwyno'r dystiolaeth ganlynol.

1. **Cofnod proses creadigol (AA1).** Rhaid i hwn gael ei fonitro o leiaf unwaith gan yr athro at ddibenion dilysu. Bydd yr athro a'r dysgwr yn llofnodi datganiad dilysu sydd i'w weld ar y ddalen glawr.

2. **Perfformiad neu ddyluniad (AA1 ac AA2)**
   - rhaid i'r perfformiad neu'r dyluniad terfynol gael ei wireddu a'i gofnodi yn glyweledol
   - rhaid i ddysgwyr, gan gynnwys dysgwyr dylunio, gael eu hadnabod yn glir wrth eu henw a'u rhif ymgeisydd ar ddechrau perfformiad pob grŵp
   - rhaid sicrhau nad yw'r gwaith o recordio pob darn yn cael ei olygu a bod y perfformiad yn gyflawn o'r dechrau i'r diwedd, ac wedi'i ffilmio o safbwynt y gynulleidfa.
   - rhaid cyflwyno pob perfformiad drwy e-bortffolio.

3. **Gwerthusiad (AA4).** Rhaid i hwn gael ei fonitro o leiaf unwaith gan yr athro at ddibenion dilysu. Bydd yr athro a'r dysgwr yn llofnodi datganiad dilysu sydd i'w weld ar y ddalen glawr.

**Monitro a chyflwyno marciau**

- Y ganolfan sy'n pennu'r dyddiad cwblhau mewnol a rhaid i'r ganolfan ystyried yr amser sydd ei angen ar gyfer asesiad mewnol, safoni mewnol a chyflwyno marciau i CBAC.
- Bydd dalennau blaen unigol, sydd ar gael ar wefan CBAC, yn cael eu defnyddio ar gyfer cofnodi marciau i'w hanfon at y safonwr. Rhaid i ganolfannau gadw copïau o'r holl ddalennau marcio a anfonir at y safonwr.
- Mae'n hanfodol, os bydd mwy nag un athro mewn canolfan, fod gwaith pob grŵp addysgu yn cael ei safoni'n fewnol. Bwriedir i hyn sicrhau bod yr asesiad terfynol yn adlewyrchu safon gytûn ar gyfer yr holl grwpiau addysgu dan sylw.
- Bydd canolfannau yn cyflwyno marciau ar gyfer gwaith a aseswyd yn fewnol ar-lein erbyn dyddiad penodedig ym mis Mai.
- Pan fydd y marciau wedi eu cyflwyno i CBAC, bydd y system ar-lein yn cymhwyso'r fformiwla enghreifftiol yn seiliedig ar y drefn restrol gyffredinol ar gyfer pob ymgeisydd a gofrestrwyd ac yn nodi'r sampl o ymgeiswyr y dewiswyd eu gwaith ar gyfer ei gymedroli ar unwaith.
- Rhaid i'r holl waith yn y sampl gael ei lwytho i fyny i e-bortffolio neu ei anfon at y safonwr erbyn y dyddiad gofynnol ym mis Mai.
- Mae'r holl ddogfennaeth angenrheidiol i'w gweld ar y wefan.
- O ganlyniad i'r safoni, gall marciau dysgwyr gael eu haddasu fel bod marciau'r ganolfan yn unol â'r safon genedlaethol.

© WJEC CBAC Ltd.

- Os bydd angen, bydd y safonwr yn gofyn am samplau ychwanegol o waith ac, os bydd angen, gellir gofyn am waith pob dysgwr a safoni gwaith pob un ni waeth beth fo nifer yr ymgeiswyr.  Yn yr achos hwn, anfonir yr holl waith at y safonwr.
- Bydd pob canolfan yn cael adborth manwl o'r broses safoni ym mis Awst.
- Dylai pob darn o waith nad yw'n cael ei gyflwyno i CBAC gael ei gadw gan y ganolfan tan fis Hydref y flwyddyn ardystio.

## Uned 3: Testun ar Waith

**36% o'r cymhwyster**
Asesir Uned 3 yn allanol gan arholwr ymweld o CBAC ar ddyddiad y cytunwyd arno rhwng mis Ionawr a mis Mai.

### Asesu

Mae Uned 3 yn asesu AA1, AA2 ac AA4 (yn rhannol) a'r marc uchaf yw 120. Asesir rhan o AA1 a'r cyfan o AA2 yn fyw gan yr arholwr ymweld. Bydd y perfformiad wedi'i ddyfeisio'n cael ei farcio allan o 45, bydd y perfformiad testun hefyd yn cael ei farcio allan o 45 a'r adroddiad proses a gwerthuso yn cael ei farcio allan o 30.

### AA1

- Bydd AA1 yn cael ei farcio allan o 40 wedi'i rannu fel a ganlyn:
    - Bydd AA1.1a yn cael ei farcio allan o 30 (15 marc am bob darn) drwy'r perfformiad/dyluniad
    - Bydd AA1.1b yn cael ei farcio allan o 10 yn yr adroddiad.

### AA2

- Asesir AA2 allan o 60 marc (30 marc ar bob darn) drwy'r perfformiad neu'r dyluniad terfynol

### AA4

- Bydd AA4 yn cael ei farcio allan o 20 marc, wedi'i asesu drwy'r adroddiad.

### Goruchwylio a Monitro

- Nid oes cyfyngiad ar faint o amser y mae dysgwyr yn ei dreulio yn datblygu, ymarfer a mireinio eu gwaith ar gyfer Uned 3, er na fydd yr ysgogiadau'n cael eu rhyddhau tan wythnos gyntaf mis Mehefin yn y flwyddyn cyn yr asesiad.
- Gall athrawon roi arweiniad a chymorth i ddysgwyr er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o ofynion yr asesiad a'r gridiau marcio.
- Gall athrawon roi cyngor am addasrwydd y dewis o ymarferwr/arddull ar y cyd â'r dewis o destun.
- Gall athrawon roi cyngor hefyd ar y dewis o theatr fyw i'w gweld fel rhan o'r uned hon.
- Pan fydd y gwaith ymarferol yn mynd rhagddo, rhaid i'r adborth gael ei gyfyngu i gyngor cyffredinol ar yr hyn sydd angen ei wella. **Ni** ddylai athrawon roi arweiniad penodol ar sut i wneud y gwelliannau hyn.

© WJEC CBAC Ltd.

- Rhaid i'r adroddiad proses a gwerthuso gael ei gwblhau gan y dysgwr a rhaid i athrawon weld un drafft er mwyn dilysu'r gwaith. Fodd bynnag, ni all athrawon gynnig adborth manwl na chyngor am sut i wella'r gwaith: nid oes hawl ganddynt i gynnig cyngor am gynllun y gwaith, sillafu, atalnodi, gramadeg cywir neu wallau eraill, na nodi unrhyw beth a hepgorwyd o'r cynnwys.

**Tystiolaeth asesu a dilysu**

1. **Perfformiad neu ddyluniad.** Rhaid i'r perfformiad neu ddyluniad terfynol gael ei wireddu a'i asesu'n fyw gan yr arholwr sy'n ymweld.

- Rhaid i ddysgwyr, gan gynnwys dysgwyr dylunio, gael eu hadnabod yn glir wrth eu henw a'u rhif ymgeisydd ar ddechrau perfformiad pob grŵp.
- Mae'n annhebygol iawn y bydd gwaith sydd o dan amser wedi'i ddatblygu ddigon i gael marc yn y band uchaf.
- Ni chosbir ymgeisydd am waith sydd o dan y terfyn amser. Ond, dylai canolfannau a dysgwyr hefyd nodi ei bod yn annhebygol y bydd marc sydd yn y bandiau marciau uwch yn cael ei ddyfarnu ar gyfer gwaith sydd o dan amser yn sylweddol gan na fydd digon o dystiolaeth o ddatblygiad a/neu ymgysylltiad â'r gynulleidfa efallai.
- Ni chosbir gwaith sy'n mynd y tu hwnt i'r terfyn amser. Ond, dylai canolfannau a dysgwyr nodi dim ond gwaith sydd o fewn yr amseriadau penodol uchod a asesir. Ni fydd marciau'n cael eu dyfarnu unwaith y bydd y terfyn amser perfformio wedi mynd heibio.
- Wrth bennu cosbau dylid ystyried pob darn ar wahân.
- Rhaid i bob darn gael ei gofnodi o safbwynt y gynulleidfa a'i gyflwyno i CBAC o fewn wythnos i'r asesiad drwy e-bortffolio.
- Rhaid sicrhau mai'r perfformiad a aseswyd yn fyw gan yr arholwr ymweld yw'r recordiad a gyflwynir.
- Gan mai'r dyluniad ei hun sy'n cael ei asesu, gall y cyfarpar technegol gael ei weithredu gan rywun arall.
- Mae'n ofynnol i ymgeiswyr dylunio roi cyflwyniad **5-10 munud** i'r arholwr ymweld i roi rhesymeg a dilysiad ar gyfer eu gwaith dylunio. Dylai'r cyflwyniad gynnwys:
    - manylion allweddol am sut gwireddwyd y gwaith dylunio
    - tystiolaeth sy'n briodol i'r opsiwn dylunio o'u dewis, e.e. lluniadau, plotiau goleuo, modelau wrth raddfa, clipiau sain, taflenni ciw ac ati.
- Nid yw'r cyflwyniad ei hun yn cael ei asesu. Mae'n cael ei gynnwys gan fod angen i'r arholwr weld y dyluniad cyflawn.
- Rhaid i'r cyflwyniad gael ei recordio gan y ganolfan a'i gyflwyno gyda'r perfformiadau.

2. **Yr adroddiad proses a gwerthuso**

- Rhaid i'r adroddiad gael ei gwblhau o fewn wythnos i'r perfformiad a'i bostio at yr arholwr ymweld i'w asesu gyda'r asesiad.
- Rhaid i ddysgwyr lofnodi datganiad dilysu ar y ddalen glawr i'w gyflwyno gyda'r adroddiad.
- Rhaid i'r datganiad gael ei gydlofnodi gan yr athro i ddweud ei fod wedi cymryd pob cam rhesymol i'w ddilysu. Ni fydd angen hysbysu CBAC am gamymddwyn a ganfuwyd cyn i'r dysgwr lofnodi'r datganiad dilysu ond rhaid ymdrin ag ef yn unol â gweithdrefnau mewnol y ganolfan. Dylid cwblhau'r ddalen glawr ar gyfer **pob ymgeisydd**, nid dim ond yr ymgeiswyr hynny a ddewiswyd fel rhan o'r sampl i'w anfon at y safonwr.

© WJEC CBAC Ltd.

# 4 GWYBODAETH DECHNEGOL

## 4.1 Cofrestru

Manyleb unedol yw hon sy'n caniatáu am elfen o asesu mewn camau.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu'r haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon.

Bydd Uned 1 ac Uned 2 ar gael yn 2017 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster UG am y tro cyntaf yn haf 2017.

Bydd Uned 3 ac Uned 4 ar gael yn 2018 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster Safon Uwch am y tro cyntaf yn haf 2018.

Gellir sefyll cymhwyster fwy nag unwaith. Fodd bynnag, os yw ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar unrhyw uned ddwywaith a'i fod yn dymuno cofrestru am y trydydd tro, yna bydd rhaid i'r ymgeisydd ail-gofrestru am bob uned a'r cyfnewid priodol. Cyfeirir at hyn fel 'dechrau o'r newydd'. Pan gaiff cymhwyster ei ailgymryd (dechrau o'r newydd), gall ymgeisydd roi hyd at ddau gynnig arall ar bob uned. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn dechrau o'r newydd wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

Gellir trosglwyddo marciau unedau asesu di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol am yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn cael ei ddisgrifio fel ymgeisydd ailsefyll.

Mae'r codau cofrestru i'w gweld isod.

| | Teitl | Codau cofrestru | |
|---|---|---|---|
| | | **Cyfrwng Saesneg** | **Cyfrwng Cymraeg** |
| UG Uned 1 | Gweithdy Theatr | 2690U1 | 2690N1 |
| UG Uned 2 | Testun mewn Theatr | 2690U2 | 2690N2 |
| U2 Uned 3 | Testun ar Waith | 1690U3 | 1690N3 |
| U2 Uned 4 | Testun mewn Perfformiad | 1690U4 | 1690N4 |
| Cyfnewid Cymhwyster UG | | 2690QS | 2690CS |
| Cyfnewid Cymhwyster Safon Uwch | | 1690QS | 1690CS |

Mae'r rhifyn cyfredol o'n *Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau* yn nodi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

Nid oes unrhyw gyfyngiad ar gofrestru am y fanyleb hon ynghyd ag unrhyw fanyleb UG neu Safon Uwch arall CBAC.

© WJEC CBAC Ltd.

# 4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymhwyster TAG UG yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A i E. Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymhwyster TAG Safon Uwch yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A* i E. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig). Defnyddir llythyren fach a i e i ddangos graddau unedau ar slipiau canlyniadau ond nid ar y tystysgrifau.

Defnyddir y Raddfa Marciau Unffurf (GMU) mewn manylebau unedol fel ffordd o adrodd, cofnodi a chyfansymio canlyniadau asesiadau uned ymgeiswyr. Mae'r GMU yn cael ei defnyddio fel y bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd yr un safon yn cael yr un marc unffurf, pryd bynnag y cymerwyd yr uned. Bydd canlyniadau unedau unigol a'r dyfarniad pwnc cyffredinol yn cael eu mynegi fel marc unffurf ar raddfa sy'n gyffredin i bob cymhwyster TAG. Mae cyfanswm o 200 marc unffurf i'r TAG UG a chyfanswm o 500 marc unffurf i'r TAG Safon Uwch. Mae cyfanswm marciau unffurf unrhyw uned yn dibynnu ar y pwysoli am yr uned honno yn y fanyleb.

Mae marciau unffurf yn cyfateb i raddau uned fel a ganlyn:

| | | Gradd Uned | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pwysoli'r Uned** | **Uchafswm marc unffurf yr uned** | a | b | c | d | e |
| **Uned 1 (24%)** | 120 | 96 | 84 | 72 | 60 | 48 |
| **Uned 2 (16%)** | 80 | 64 | 56 | 48 | 40 | 32 |
| **Uned 3 (36%)** | 180 | 144 | 126 | 108 | 90 | 72 |
| **Uned 4 (24%)** | 120 | 96 | 84 | 72 | 60 | 48 |

Mae'r marciau unffurf a enillwyd am bob uned yn cael eu hadio at ei gilydd a'r radd am y pwnc yn cael ei seilio ar y cyfanswm hwn.

| | | Gradd y cymhwyster | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Uchafswm Marciau Unffurf** | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** |
| **TAG UG** | 200 | 160 | 140 | 120 | 100 | 80 |
| **TAG Safon Uwch** | 500 | 400 | 350 | 300 | 250 | 200 |

Ar Safon Uwch, dyfernir Gradd A* i ymgeiswyr sydd wedi ennill Gradd A (400 marc unffurf) yn y cymhwyster Safon Uwch cyffredinol ac o leiaf 90% o gyfanswm y marciau unffurf ar gyfer yr unedau U2 (270 marc unffurf).

© WJEC CBAC Ltd.

# ATODIAD A

## Rhestr o destunau ar gyfer Uned 1

Rhaid i ddysgwyr ddewis **un** testun o'r rhestr ar gyfer eu perfformiad *wedi'i ailddehongli.* Gallant, os dymunant, ddewis ail destun cyferbyniol o'r rhestr ar gyfer eu perfformiad testun yn Uned 3. Drwy'r cymhwyster cyfan, rhaid i ddysgwyr astudio testunau o amrywiaeth o gyd-destunau cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol.

**Cyn-1956**

| | |
|---|---|
| *Absolute Hell* | Rodney Ackland |
| *The Persians* | Aeschylus |
| *Everyman* | Di-enw |
| *Waiting for Godot* | Samuel Beckett |
| *The Enchantment* | Victoria Benedictsson |
| *Mrs Warren's Profession* | George Bernard Shaw |
| *Pygmalion* | George Bernard Shaw |
| *The Caucasian Chalk Circle / Y Cylch Sialc* | Bertolt Brecht |
| *Mother Courage / Mam Gwroldeb* | Bertolt Brecht |
| *The Seagull* | Anton Chekhov |
| *Blithe Spirit* | Noël Coward |
| *Hay Fever* | Noël Coward |
| *The Maids* | Jean Genet |
| *Servant of Two Masters* | Carlo Goldoni |
| *The Nativity* | addasiad Tony Harrison |
| *A Doll's House* | Henrik Ibsen |
| *Lady from the Sea* | Henrik Ibsen |
| *Volpone* | Ben Jonson |
| *The Bells* | Leopold Lewis |
| *Dr Faustus* | Christopher Marlowe |
| *All My Sons* | Arthur Miller |
| *Playboy of the Western World* | John Millington Synge |
| *Tartuffe* | Molière |
| *The Misanthrope / Cariad Mr Bustl* | Molière |
| *As You Like It* | William Shakespeare |
| *The Tempest* | William Shakespeare |
| *Antigone* | Sophocles |
| *The Dream Play* | August Strindberg |
| *Under Milk Wood / Dan y Wenallt* | Dylan Thomas |
| *The Ragged Trousered Philanthropists* | Robert Tressell |
| *Our Town* | Thornton Wilder |
| *The Corn is Green* | Emlyn Williams |
| *The Glass Menagerie* | Tennessee Williams |
| *East Lynne* | Ellen Wood |
| *Thérèse Raquin* | Émile Zola |

**Ôl-1956**

| | |
|---|---|
| *A Delicate Balance* | Edward Albee |
| *The 39 Steps* | Patrick Barlow |
| *One Man, Two Guvnors* | Richard Bean |
| *The Madness of George III* | Alan Bennett |
| *London Road* | Alecky Blythe |
| *Lear* | Edward Bond |
| *Two* | Jim Cartwright |
| *Red Velvet* | Lolita Chakrabarti |

© WJEC CBAC Ltd.

| | |
|---|---|
| *Vinegar Tom* | Caryl Churchill |
| *A Taste of Honey* | Shelagh Delaney |
| *Dringo Yn Yr Andes* | Emyr Edwards |
| *The Barber Shop Chronicles* | Inua Ellams |
| *I Am the Wind* | Jon Fosse |
| *Dancing at Lughnasa* | Brian Friel |
| *Small Change* | Peter Gill |
| *Everybody's Talking About Jamie* | Dan Gillespie a Tom MacRae |
| *Nine Night* | Natasha Gordon |
| *A History of Falling Things* | James Graham |
| *Hang* | Debbie Tucker Green |
| *Amdani* | Bethan Gwanas |
| *The Mountaintop* | Katori Hall |
| *Amy's View* | David Hare |
| *The Secret Rapture* | David Hare |
| *Eight* | Ella Hickson |
| *Heritage* | Dafydd James |
| *Moon on a Rainbow Shawl* | Errol John |
| *Lysh* | Aled Jones-Williams |
| *Merched Eira* | Aled Jones-Williams |
| *Humble Boy* | Charlotte Jones |
| *Stones in His Pockets* | Marie Jones |
| *My Mother Said I Never Should* | Charlotte Keatley |
| *Beautiful Burnout* | Bryony Lavery |
| *Clytemnestra* | Gwyneth Lewis |
| *Lungs* | Duncan Macmillan |
| *Emilia* | Morgan Lloyd Malcolm |
| *Sgint* | Bethan Marlow |
| *Decky Does a Bronco* | Douglas Maxwell |
| *The Weir* | Conor McPherson |
| *100* | Neil Monaghan, Diene Petterle a Christopher Heimann |
| *Lovesong* | Abi Morgan |
| *Christmas is Miles Away / Pryd Mae'r Haf?* | Chloë Moss / Gwawr Loader |
| *Loot* | Joe Orton |
| *The Entertainer* | John Osborne |
| *Broken* | Gary Owen |
| *Killology* | Gary Owen |
| *'night Mother* | Marsha Norman |
| *Y Tŵr* | Gwenlyn Parry |
| *Constellations* | Nick Payne |
| *Tituba* | Winsome Pinnock |
| *The Birthday Party* | Harold Pinter |
| *Blue Remembered Hills / Bryniau'r Glas Atgofion* | Dennis Potter |
| *Diwedd Y Byd* | Meic Povey |
| *Say It With Flowers* | Meic Povey a Johnny Tudor |
| *Wyneb yn Wyneb* | Meic Povey |
| *Salt*, *Root and Roe* | Tim Price |
| *Deep Cut* | Philip Ralph |
| *Art* | Yasmina Reza |
| *The Red Shoes* | Emma Rice |
| *Tristan and Yseult* | Emma Rice |
| *Te Yn Y Grug* | Kate Roberts (Bara Caws) |
| *Shirley Valentine* | Willy Russell |
| *A Good Clean Heart* | Alun Saunders |
| *Amadeus* | Peter Shaffer |
| *Into The Woods* | Stephen Sondheim |
| *Black Comedy* | Peter Shaffer |
| *True West* | Sam Shepard |
| *Tusk Tusk* | Polly Stenham |
| *The Curious incident of the Dog in the* | |

© WJEC CBAC Ltd.

| | |
|---|---|
| *Night-Time* | Simon Stephens |
| *Rosencrantz and Guildenstern Are Dead* | Tom Stoppard |
| *Brontë* | Polly Teale |
| *The Street of Crocodiles* | Theatre de Complicite |
| *The Dark Philosophers* | Gwyn Thomas (addasiad *National Theatre Wales* a *Told by an Idiot)* |
| *Bazaar and Rummage* | Sue Townsend |
| *Tonypandemonium* | Rachel Trezise |
| *Broken Biscuits* | Tom Wells |
| *The Ash Girl* | Timberlake Wertenbaker |
| *Jane Eyre* | addasiad y *National Theatre* (2015) |

© WJEC CBAC Ltd.

# ATODIAD B

## Rhestr o ymarferwyr theatr a chwmnïau theatr addas

Rhaid i ddysgwyr ddewis **naill ai** ymarferwr theatr **neu** gwmni theatr i'w ddefnyddio fel sail ar gyfer creu a datblygu perfformiadau yn Unedau 1 a 3. Gallant ddewis **naill ai** o'r rhestr isod **neu** ddewis unrhyw ymarferwr neu gwmni addas arall. Rhaid i ganolfannau sicrhau bod yr ymarferwr neu'r cwmni a ddewisir yn addas ar gyfer y dasg ac ar gyfer galluoedd y dysgwyr yn y grŵp a'i fod yn un gwahanol ar gyfer pob uned. Os bydd gennych unrhyw amheuaeth ynghylch priodoldeb yr ymarferwr neu gwmni theatr a ddewiswyd, cysylltwch â CBAC am gyngor.

**Ymarferwyr Theatr**

- Stanislavski
- Brecht
- Boal
- Artaud
- Berkoff
- Katie Mitchell
- Marianne Elliott
- Polly Teale
- Julie Taymor
- Rupert Goold
- Declan Donnellan
- Eddie Ladd
- Marc Rees

Mae'r rhestr ganlynol yn amlinellu rhai o brif dechnegau pob ymarferwr theatr. Nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr ac nid oes disgwyl i ddysgwyr ychwaith arddangos pob un o'r nodweddion yn eu gwaith.

**Stanislavski**

- y bedwaredd wal
- teimlad o wirionedd
- yr 'os' lledrithiol
- cof emosiynol
- canolbwyntio sylw
- tonyddiaeth a seibiannau
- ataliaeth a rheolaeth

**Boal**

- hyrwyddo newid gwleidyddol cymdeithasol
- Theatr ryngweithiol
- Theatr fforwm
- Theatr delweddaeth
- Theatr anweledig
- Theatr y Gorthrymedig (Oppressed)
- golygfeydd byr gyda delwedd gref y gall y gynulleidfa ei deall yn hawdd ac uniaethu â hi.

**Brecht**

- dull uniongyrchol o gyfarch
- adroddwr
- aml-rolau
- gestus
- hysbyslenni
- *Spass*/gogleisio a tharo
- cerddoriaeth a chaneuon
- ymddieithrio
- didactig
- symudiadau ystumiol (*gestic*)
- theatr epig
- dim pedwaredd wal
- strwythur episodig
- neges wleidyddol

**Artaud**

- theatr creulondeb
- symudiadau, ystum a dawns
- mygydau a phypedau
- synnu'r gynulleidfa
- ymosod ar yr emosiynau
- gweithrediadau a delweddau sy'n synnu'r gynulleidfa, gwisgoedd trawiadol
- cyn lleied o ddeialog â phosibl
- synau, sgrechfeydd
- gwrthrychau symbolaidd

© WJEC CBAC Ltd.

**Berkoff**

- symudiadau arddulliedig (arafsymudol/robotig)
- ystumiau wynebol gormodol
- dull uniongyrchol o gyfarch
- gwaith lleisiol gormodol
- tableaux
- mwgwd
- chwarae mewn ensemble
- minimaliaeth
- meim gormodol ac arddulliedig

**Katie Mitchell**

- dadadeiladu testun
- dull Stanislavski o greu cymeriad
- defnyddio technoleg i wella'r perfformiad
- ailddehongli testunau clasurol
- delweddaeth llwyfan yn bwysig

**Marianne Elliott**

- yn cyfarwyddo gan ddefnyddio pob agwedd ar wneud theatr
- theatr gorfforol
- pypedwaith
- caneuon/cerddoriaeth
- gwaith cydweithredol â'r tîm cynhyrchu
- technegau Brecht

**Polly Teale**

- yn addasu testunau ar gyfer *Shared Experience*
- cymysgedd o theatr gorfforol a gwaith testun
- anaml iawn y mae'r naratif yn llinol
- agwedd ffeministaidd ar y gwaith

**Julie Taymor**

- dylanwad y theatr Ddwyreiniol arni
- theatr cysgodion
- theatr Indonesaidd
- defnyddio pypedau ac actorion
- defnyddio cerddoriaeth yn achlysurol
- weithiau'n ysblennydd iawn
- eraill yn syml iawn heb unrhyw effeithiau mawr

**Rupert Goold**

- yn ailddehongli testunau clasurol ar gyfer cynulleidfa gyfoes
- gwrthrychau gweledol ar y llwyfan yn bwysig
- yn addasu testunau

**Declan Donnellan**

- mae dyfnder seicolegol y cymeriadau'n bwysig
- diddordeb yn y broses o greu cymeriadau realistig, credadwy
- dylanwad Stanislavski arno
- yn canolbwyntio ar destunau clasurol
- dylanwad dyluniadau theatr Ewrop arno

**Eddie Ladd**

- dawns/theatr gorfforol
- testun yn Gymraeg a Saesneg
- pwyslais gwleidyddol
- y dechnoleg weithiau'n arwain y gwaith
- yn safle-benodol yn achlysurol

**Marc Rees**

- perfformiad cyfoes
- gosodiadau, ymdeimlad o le
- theatr gorfforol
- rhyngddisgyblaethol, aml-gyfrwng
- testun yn Gymraeg a Saesneg
- y gwaith wedi'i wreiddio mewn hanes, diwylliant a phrofiad personol

**Cwmnïau Theatr**

I gael rhagor o wybodaeth am gwmnïau theatr, ewch i'w gwefannau.

- Kneehigh
- Frantic Assembly
- Earthfall
- DV8
- Complicite
- Punchdrunk
- 1927
- Theatr Genedlaethol Cymru
- Dirty protest
- Volcano

© WJEC CBAC Ltd.

# ATODIAD C

## Uned 1: Grid Asesu Perfformiad

- Dylid sefydlu'r band priodol **ar gyfer pob colofn** drwy benderfynu pa ddisgrifydd perfformiad sy'n cyfateb orau i berfformiad yr ymgeisydd
- Yna dylid sefydlu'r marc priodol drwy benderfynu **i ba raddau** y mae'r ymgeisydd wedi **bodloni'r meini prawf o fewn y band perthnasol**
- Gall cyfanswm y marciau ar gyfer y ddwy golofn adlewyrchu perfformiad ar y bandiau gwahanol ar draws yr amcan asesu, er enghraifft, gall ymgeisydd gyflawni band 4 ar gyfer AA1.a a band 5 ar gyfer AA1.b
- Dylid nodi bod y bandiau wedi'u cynllunio i gynorthwyo'r broses farcio drwy nodi lefelau cyflawniad unigol ac nad ydynt yn cyfateb i ffiniau graddau
- Dylid ystyried y cofnod creadigol a'r perfformiad gyda'i gilydd i ddyfarnu **un** marc ar gyfer AA1.1a ac **un** marc ar gyfer AA1.1b.

| | **AA1**<br>**Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr fel rhan o'r broses o wneud theatr, gan wneud cysylltiadau rhwng theori ddramatig ac ymarfer** | | **AA2**<br>**Cymhwyso sgiliau theatrig i wireddu bwriadau artistig mewn perfformiad byw** | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Band** | **AA1.1a.**<br>**Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr fel rhan o'r broses o wneud theatr**<br>*Cofnod creadigol a chymhwysiad ymarferol* | **AA1.1b.**<br>**Gwneud cysylltiad rhwng theori ddramatig ac ymarfer**<br>*Cofnod creadigol a chymhwysiad ymarferol* | **Dehongli i adlewyrchu bwriadau artistig** | **Cymhwyso sgiliau perfformio i wireddu bwriadau artistig** | **Y gallu i gyfleu bwriadau artistig i'r gynulleidfa** |
| **5** | **17-20 marc**<br>• Syniadau creadigol yn cael eu datblygu'n llawn i greu darn cywrain a chydlynol o theatr<br>• Detholiad priodol o gonfensiynau, ffurfiau a thechnegau dramatig wedi'i ddewis i gyfleu ystyr drwy'r darn cyfan<br>• Y gofod perfformio a'r pellter rhwng actorion wedi'u defnyddio'n dda i gyfleu ystyr mewn ffordd ystyriol<br>• Cyfraniad sylweddol gan yr unigolyn at y broses o greu a datblygu'r darn o theatr | **9-10 marc**<br>• Dehongliad/ailddehongliad cydlynol yn arddangos dealltwriaeth o'r darn yng nghyd-destun y testun cyfan<br>• Mae'r darn yn arddangos strwythur wedi'i ddiffinio'n dda gyda chymeriadau datblygedig iawn<br>• Ymchwilir* i'r ymarferwr/cwmni yn llawn ac mae agweddau perthnasol ar yr ymchwil hwn, yn cynnwys technegau, dulliau, arddull a chonfensiynau'r ymarferwr/cwmni wedi'u cymhwyso'n fedrus wrth wneud y darn | **13-15 marc**<br>• Dehongliad cydlynol o gymeriad lle mae ymgysylltiad â'r rôl wedi'i gynnal drwy'r perfformiad cyfan<br>• Mae'r cymeriadu yn adlewyrchu'r ymarferwr/cwmni yn y perfformiad mewn ffordd effeithiol iawn, lle y bo'n briodol | **17-20 marc**<br>• Sgiliau lleisiol a chorfforol â ffocws cyson sy'n arwain at berfformiad sydd wedi'i gynnal<br>• Rhyngweithio mewn ffordd gynnil ac effeithiol â pherfformwyr eraill lle y bo'n berthnasol | **9-10 marc**<br>• Lefel hynod effeithiol o gyfathrebu gan ddal sylw'r gynulleidfa drwy'r rhan fwyaf o'r perfformiad |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **4** | **13-16 marc**<br>• Syniadau creadigol wedi'u datblygu'n dda i greu darn o theatr sy'n gywrain a chydlynol ar y cyfan<br>• Detholiad priodol o gonfensiynau, ffurfiau a thechnegau dramatig wedi'u dewis i gyfleu ystyr drwy'r rhan fwyaf o'r darn<br>• Y gofod perfformio a'r pellter rhwng actorion wedi'u defnyddio'n dda ar y cyfan i gyfleu ystyr<br>• Cyfraniad cymwys gan yr unigolyn at y broses o greu a datblygu'r darn | **7-8 marc**<br>• Dehongliad/ailddehongliad cydlynol ar y cyfan yn arddangos dealltwriaeth briodol o'r darn yng nghyd-destun y testun cyfan<br>• Mae'r darn yn arddangos strwythur wedi'i ddiffinio ar y cyfan gyda chymeriadau datblygedig yn gyffredinol<br>• Ymchwilir* i'r ymarferwr/cwmni yn dda ac mae agweddau perthnasol ar y cyfan ar yr ymchwil hwn, yn cynnwys technegau, dulliau, arddull a chonfensiynau'r ymarferwr/cwmni wedi'u cymhwyso'n dda wrth wneud y darn | **10-12 marc**<br>• Dehongliad cydlynol ar y cyfan o gymeriad lle mae ymgysylltiad â'r rôl wedi'i gynnal drwy'r rhan fwyaf o'r perfformiad<br>• Mae'r cymeriadu yn adlewyrchu'r ymarferwr/cwmni mewn ffordd effeithiol, lle y bo'n briodol | **13-16 marc**<br>• Sgiliau lleisiol a chorfforol cymwys a chyson ar y cyfan yn arwain at berfformiad sydd wedi'i gynnal y rhan fwyaf o'r amser<br>• Rhyngweithio cymwys â pherfformwyr eraill bob amser lle y bo'n briodol | **7-8 marc**<br>• Lefel gyfathrebu effeithiol gan ddal sylw'r gynulleidfa am rywfaint o'r perfformiad |
| **3** | **9-12 marc**<br>• Rhai syniadau creadigol wedi'u datblygu'n rhannol i greu darn digonol o theatr<br>• Rhai confensiynau, ffurfiau a thechnegau dramatig priodol wedi'u dewis i gyfleu ystyr mewn ffordd ddigonol<br>• Y gofod perfformio a'r pellter rhwng actorion wedi'u defnyddio'n ddigonol i gyfleu rhywfaint o ystyr<br>• Cyfraniad digonol gan yr unigolyn at y broses o greu a datblygu'r darn o theatr | **5-6 marc**<br>• Dehongliad/ailddehongliad digonol yn arddangos rhywfaint o ddealltwriaeth o'r darn yng nghyd-destun y testun cyfan<br>• Mae'r darn yn arddangos strwythur digonol gyda rhywfaint o ddatblygiad cymeriad<br>• Ymchwilir* i'r ymarferwr/cwmni mewn ffordd ddigonol ac mae rhai agweddau perthnasol ar yr ymchwil hwn, yn cynnwys rhai o dechnegau, dulliau, arddull a chonfensiynau'r ymarferwr/cwmni wedi'u cymhwyso'n ddigonol wrth wneud y darn | **7-9 marc**<br>• Dehongliad digonol o gymeriad gyda rhywfaint o ymgysylltu â'r rôl, wedi'i gynnal am rywfaint o'r perfformiad<br>• Mae'r cymeriadu yn adlewyrchu'r ymarferwr/cwmni yn y perfformiad mewn ffordd ddigonol, lle y bo'n briodol | **9-12 marc**<br>• Sgiliau lleisiol a chorfforol digonol wedi'u cynnal am rywfaint o'r perfformiad<br>• Rhyngweithio digonol â pherfformwyr eraill sy'n berthnasol i'r olygfa gan amlaf | **5-6 marc**<br>• Lefel ddigonol o gyfathrebu a gwnaed ymgais i ddal sylw'r gynulleidfa yn ystod rhywfaint o'r perfformiad |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2 | **5-8 marc**<br>• Rhai syniadau creadigol wedi'u datblygu'n gyfyngedig i greu darn cyfyngedig o theatr<br>• Rhai confensiynau, ffurfiau a thechnegau dramatig priodol wedi'u dewis i gyfleu ystyr mewn ffordd gyfyngedig<br>• Y gofod perfformio a'r pellter rhwng actorion wedi'u defnyddio rywsut-rywsut i gyfleu ystyr mewn ffordd gyfyngedig<br>• Cyfraniad cyfyngedig gan yr unigolyn at y broses o greu a datblygu'r darn | **3-4 marc**<br>• Dehongliad/ailddehongliad rhannol yn arddangos dealltwriaeth gyfyngedig o'r darn yng nghyd-destun y testun cyfan<br>• Mae'r darn yn arddangos strwythur cyfyngedig gyda datblygiad cymeriad cyfyngedig<br>• Ymchwilir* i'r ymarferwr/cwmni mewn ffordd gyfyngedig ac mae'r ychydig agweddau perthnasol ar yr ymchwil hwn, yn cynnwys rhai o dechnegau, dulliau, arddull a chonfensiynau'r ymarferwr/cwmni wedi'u cymhwyso mewn ffordd gyfyngedig wrth wneud y darn | **4-6 marc**<br>• Dehongliad cyfyngedig o gymeriad a phrin yw'r ymgysylltiad â'r rôl<br>• Mae'r cymeriadu yn adlewyrchu'r ymarferwr/cwmni yn y perfformiad mewn ffordd gyfyngedig, lle y bo'n briodol | **5-8 marc**<br>• Sgiliau lleisiol a chorfforol cyfyngedig nad ydynt yn cael eu cynnal<br>• Rhyngweithio cyfyngedig â pherfformwyr eraill nad yw'n berthnasol i'r olygfa yn gyffredinol | **3-4 marc**<br>• Cyfathrebu cyfyngedig heb ddal sylw'r gynulleidfa bob amser |
| 1 | **1-4 marc**<br>• Ychydig iawn o syniadau creadigol wedi'u datblygu i greu darn cyfyngedig iawn o theatr<br>• Ychydig iawn o gonfensiynau, ffurfiau a thechnegau dramatig wedi'u dewis i gyfleu ystyr mewn ffordd gyfyngedig iawn<br>• Mae defnydd gwael o'r gofod perfformio a'r pellter rhwng actorion a chyfyngedig iawn yw'r ystyr maen nhw'n ei gyfleu<br>• Cyfraniad cyfyngedig iawn gan yr unigolyn at y broses o greu a datblygu'r darn | **1-2 farc**<br>• Dehongliad/ailddehongliad cyfyngedig iawn yn arddangos dealltwriaeth gyfyngedig iawn o'r darn yng nghyd-destun y testun cyfan<br>• Mae'r darn yn arddangos strwythur cyfyngedig iawn a phrin iawn yw'r datblygiad cymeriad, os o gwbl<br>• Ymchwilir* i'r ymarferwr/cwmni mewn ffordd gyfyngedig iawn a phrin iawn yw'r agweddau perthnasol ar yr ymchwil hwn, yn cynnwys technegau, dulliau, arddull a chonfensiynau'r ymarferwr/cwmni wedi'u cymhwyso mewn ffordd gyfyngedig iawn wrth wneud y darn | **1-3 marc**<br>• Dehongliad cyfyngedig iawn o gymeriad a phrin yw'r ymgysylltiad emosiynol â'r rôl, os o gwbl<br>• Mae'r cymeriadu yn adlewyrchu'r ymarferwr/cwmni yn y perfformiad mewn ffordd gyfyngedig iawn, lle y bo'n briodol | **1-4 marc**<br>• Sgiliau lleisiol a chorfforol cyfyngedig iawn nad ydynt yn cael eu cynnal<br>• Rhyngweithio cyfyngedig iawn â pherfformwyr eraill nad yw'n berthnasol i'r olygfa | **1 -2 farc**<br>• Prin yw'r cyfathrebu â'r gynulleidfa, os o gwbl |
| 0 | **0 marc**<br>• Ni chafodd unrhyw syniadau eu creu na'u datblygu i gyfleu ystyr | **0 marc**<br>• Ni chafodd dulliau a thechnegau'r ymarferwr/cwmni eu dehongli na'u cymhwyso | **0 marc**<br>• Ni chafodd unrhyw gymeriadau eu dehongli ac ni cheir unrhyw gysylltiad â'r ymarferwr/cwmni | **0 marc**<br>• Ni chafodd unrhyw sgiliau lleisiol na chorfforol eu harddangos ac ni cheir unrhyw ryngweithio â pherfformwyr eraill | **0 marc**<br>• Dim cyfathrebu â'r gynulleidfa |

*Rhaid i'r gwaith o ymchwilio i'r ymarferwr/cwmni fod mewn perthynas â'r holl bwyntiau bwled a restrir ar dudalen 11. Dylai'r holl waith ymchwil fod yn amlwg yn y cofnod creadigol, er nad oes angen i'r holl waith ymchwil gael ei gymhwyso yn y darn.

© WJEC CBAC Ltd.

## Uned 1: Grid Asesu Dylunio

- Dylid sefydlu'r band priodol **ar gyfer pob colofn** drwy benderfynu pa ddisgrifydd perfformiad sy'n cyfateb orau i berfformiad yr ymgeisydd
- Yna dylid sefydlu'r marc priodol drwy benderfynu **i ba raddau** y mae'r ymgeisydd wedi **bodloni'r meini prawf o fewn y band perthnasol**
- Gall cyfanswm y marciau ar gyfer y ddwy golofn adlewyrchu perfformiad ar y bandiau gwahanol ar draws yr amcan asesu, er enghraifft, gall ymgeisydd gyflawni band 4 ar gyfer AA1.a a band 5 ar gyfer AA1.b
- Dylid nodi bod y bandiau wedi'u cynllunio i gynorthwyo'r broses farcio drwy nodi lefelau cyflawniad unigol ac nad ydynt yn cyfateb i ffiniau graddau
- Dylid ystyried y cofnod creadigol a'r dyluniad gyda'i gilydd i lunio **un** marc ar gyfer AA1.1a ac **un** marc ar gyfer AA1.1b

| | **AA1**<br>**Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr fel rhan o'r broses o wneud theatr, gan wneud cysylltiadau rhwng theori ddramatig ac ymarfer** | | **AA2**<br>**Cymhwyso sgiliau theatrig i wireddu bwriadau artistig mewn perfformiad byw** | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Band** | **AA1.1a.**<br>**Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr fel rhan o'r broses o wneud theatr**<br>*Cofnod creadigol a chymhwysiad ymarferol* | **AA1.1b.**<br>**Gwneud cysylltiad rhwng theori ddramatig ac ymarfer**<br>*Cofnod creadigol a chymhwysiad ymarferol* | **Dehongli i adlewyrchu bwriadau artistig** | **Cymhwyso sgiliau dylunio i wireddu bwriadau artistig** | **Y gallu i gyfleu bwriadau artistig i'r gynulleidfa** |
| **5** | **17-20 marc**<br>• Syniadau creadigol wedi'u datblygu'n dda i greu darn cwbl gywrain a chydlynol o theatr<br>• Detholiad priodol o dechnegau dylunio wedi'u dewis i gyfleu ystyr drwy'r darn i gyd<br>• Y ciwiau dylunio/set/gwisgoedd wedi'u cynllunio/trefnu'n dda i gyfleu ystyr mewn ffordd ystyriol<br>• Cyfraniad sylweddol gan yr unigolyn at y broses o greu a datblygu'r darn | **9-10 marc**<br>• Dehongliad/ailddehongliad cydlynol yn arddangos dealltwriaeth o'r darn yng nghyd-destun y testun cyfan<br>• Mae'r darn yn arddangos strwythur wedi'i ddiffinio'n dda gyda datblygiad da ar y cysyniad dylunio<br>• Ymchwilir* i'r ymarferwr/cwmni yn llawn ac mae agweddau perthnasol ar yr ymchwil hwn, yn cynnwys technegau, dulliau, arddull a chonfensiynau'r ymarferwr/cwmni wedi'u cymhwyso'n fedrus wrth wneud y darn | **13-15 marc**<br>• Dehongliad cydlynol o'r testun wedi'i gynnal drwy'r perfformiad cyfan<br>• Mae'r dyluniad yn adlewyrchu'r ymarferwr/cwmni yn y perfformiad mewn ffordd effeithiol iawn, lle y bo'n briodol | **17-20 marc**<br>• Sgiliau dylunio â ffocws cyson sy'n arwain at wireddu'r perfformiad mewn modd sydd wedi'i gynnal<br>• Newidiadau/amrywiadau cynnil ac effeithiol i'r dyluniad fel sy'n briodol i'r testun | **9-10 marc**<br>• Lefel hynod effeithiol o gyfleu ystyr ac awyrgylch gan ddal sylw'r gynulleidfa drwy'r rhan fwyaf o'r perfformiad |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **4** | **13-16 marc**<br>• Syniadau creadigol wedi'u datblygu'n dda i greu darn cywrain a chydlynol o theatr ar y cyfan<br>• Detholiad priodol o dechnegau dylunio wedi'u dewis i gyfleu ystyr drwy'r rhan fwyaf o'r darn<br>• Y ciwiau dylunio/set/gwisgoedd wedi'u cynllunio/trefnu'n dda ar y cyfan i gyfleu ystyr<br>• Cyfraniad cymwys gan yr unigolyn at y broses o greu a datblygu'r darn | **7-8 marc**<br>• Dehongliad/ailddehongliad cydlynol ar y cyfan yn arddangos dealltwriaeth briodol o'r darn yng nghyd-destun y testun cyfan<br>• Mae'r darn yn arddangos strwythur wedi'i ddiffinio'n dda ar y cyfan gyda'r cysyniad dylunio wedi'i ddatblygu'n dda ar y cyfan<br>• Ymchwilir* i'r ymarferwr/cwmni ac mae agweddau perthnasol ar y cyfan ar yr ymchwil hwn, yn cynnwys technegau, dulliau, arddull a chonfensiynau'r ymarferwr/cwmni wedi'u cymhwyso'n dda wrth wneud y darn | **10-12 marc**<br>• Mae dehongliad cydlynol yn gyffredinol o'r testun wedi'i gynnal drwy'r rhan fwyaf o'r perfformiad<br>• Mae'r dyluniad yn adlewyrchu'r ymarferwr/cwmni yn y perfformiad mewn ffordd effeithiol, lle y bo'n briodol | **13-16 marc**<br>• Sgiliau dylunio â ffocws cymwys a chyson ar y cyfan sy'n arwain at wireddu'r perfformiad mewn modd sydd wedi'i gynnal y rhan fwyaf o'r amser<br>• Newidiadau/amrywiadau cymwys i'r dyluniad fel sy'n briodol i'r testun | **7-8 marc**<br>• Lefel effeithiol o gyfleu ystyr ac awyrgylch, gan ddal sylw'r gynulleidfa am rywfaint o'r perfformiad |
| **3** | **9-12 marc**<br>• Rhai syniadau creadigol wedi'u datblygu i greu darn digonol o theatr<br>• Rhai technegau dylunio priodol wedi'u dewis i gyfleu ystyr mewn ffordd ddigonol<br>• Y ciwiau dylunio/set/gwisgoedd wedi'u cynllunio/trefnu'n ddigonol i gyfleu rhywfaint o ystyr<br>• Cyfraniad digonol gan yr unigolyn at y broses o greu a datblygu'r darn o theatr | **5-6 marc**<br>• Dehongliad/ailddehongliad digonol yn arddangos rhywfaint o ddealltwriaeth o'r darn yng nghyd-destun y testun cyfan<br>• Mae'r darn yn arddangos strwythur digonol gyda rhywfaint o ddatblygu'r cysyniad dylunio<br>• Ymchwilir* i'r ymarferwr/cwmni mewn ffordd ddigonol ac mae rhai agweddau perthnasol ar yr ymchwil hwn, yn cynnwys technegau, dulliau, arddull a chonfensiynau'r ymarferwr/cwmni wedi'u cymhwyso'n ddigonol wrth wneud y darn | **7-9 marc**<br>• Dehongliad digonol o'r testun wedi'i gynnal am rywfaint o'r perfformiad<br>• Mae'r dyluniad yn adlewyrchu'r ymarferwr/cwmni yn y perfformiad mewn ffordd ddigonol, lle y bo'n briodol | **9-12 marc**<br>• Sgiliau dylunio digonol sy'n cael eu cynnal yn ystod rhywfaint o'r broses wireddu<br>• Defnydd digonol o newidiadau/amrywiadau i'r dyluniad ond maent yn berthnasol i'r olygfa gan amlaf | **5-6 marc**<br>• Cyfleu ystyr ac awyrgylch yn ddigonol a gwnaed ymgais i ddal sylw'r gynulleidfa am rywfaint o'r perfformiad |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **2** | **5-8 marc**<br>• Rhai syniadau creadigol wedi'u datblygu'n gyfyngedig i greu darn cyfyngedig o theatr<br>• Rhai technegau dylunio priodol wedi'i dewis i gyfleu ystyr mewn ffordd gyfyngedig<br>• Y ciwiau dylunio/set/gwisgoedd wedi'u cynllunio/trefnu rywsut-rywsut i gyfleu fawr ddim ystyr<br>• Cyfraniad cyfyngedig gan yr unigolyn at y broses o greu a datblygu'r darn | **3-4 marc**<br>• Dehongliad/ailddehongliad rhannol yn arddangos dealltwriaeth gyfyngedig o'r darn yng nghyd-destun y testun cyfan<br>• Mae'r darn yn arddangos strwythur cyfyngedig gyda'r cysyniad dylunio wedi'i ddatblygu'n gyfyngedig<br>• Ymchwilir* i'r ymarferwr/cwmni mewn ffordd gyfyngedig ac mae'r ychydig agweddau perthnasol ar yr ymchwil hwn, yn cynnwys rhai o dechnegau, dulliau, arddull a chonfensiynau'r ymarferwr/cwmni wedi'u cymhwyso mewn ffordd gyfyngedig wrth wneud y darn | **4-6 marc**<br>• Dehongliad cyfyngedig o'r testun<br>• Mae'r dyluniad yn adlewyrchu'r ymarferwr /cwmni yn y perfformiad mewn ffordd gyfyngedig, lle y bo'n briodol | **5-8 marc**<br>• Sgiliau dylunio cyfyngedig nad ydynt wedi'u cynnal drwy'r broses wireddu gyfan<br>• Newidiadau/amrywiadau cyfyngedig i'r dyluniad nad ydynt yn berthnasol i'r olygfa yn gyffredinol | **3-4 marc**<br>• Cyfleu ystyr ac awyrgylch mewn modd cyfyngedig heb ddal sylw'r gynulleidfa bob amser |
| **1** | **1-4 marc**<br>• Ychydig iawn o syniadau creadigol wedi'u datblygu i greu darn cyfyngedig iawn o theatr<br>• Ychydig iawn o dechnegau dylunio priodol wedi'u dewis i gyfleu ystyr mewn ffordd gyfyngedig iawn<br>• Cynllun gwael/trefn wael i'r ciwiau dylunio/set/gwisgoedd i gyfleu ychydig o ystyr os o gwbl<br>• Cyfraniad cyfyngedig iawn gan yr unigolyn at y broses o greu a datblygu'r darn | **1-2 farc**<br>• Dehongliad/ailddehongliad cyfyngedig iawn yn arddangos dealltwriaeth gyfyngedig iawn o'r darn yng nghyd-destun y testun cyfan<br>• Mae'r darn yn arddangos strwythur cyfyngedig iawn ag ond ychydig neu ddim datblygiad o'r cysyniad dylunio<br>• Ymchwilir* i'r ymarferwr/cwmni mewn ffordd gyfyngedig iawn ac ychydig iawn o agweddau perthnasol ar yr ymchwil hwn, yn cynnwys enghreifftiau prin iawn o dechnegau, dulliau, arddull a chonfensiynau'r ymarferwr/cwmni sy'n cael eu cymhwyso mewn ffordd gyfyngedig iawn wrth wneud y darn | **1-3 marc**<br>• Dehongliad cyfyngedig iawn o'r testun<br>• Mae'r dyluniad yn adlewyrchu'r ymarferwr /cwmni yn y perfformiad mewn ffordd gyfyngedig iawn, lle y bo'n briodol | **1-4 marc**<br>• Sgiliau dylunio cyfyngedig iawn nad ydynt yn cael eu cynnal drwy'r broses wireddu gyfan<br>• Newidiadau/amrywiadau cyfyngedig iawn i'r dyluniad nad ydynt yn berthnasol iawn i'r olygfa, os o gwbl | **1-2 farc**<br>• Prin iawn yw'r enghreifftiau o gyfleu ystyr ac awyrgylch |
| **0** | **0 marc**<br>• Ni chafodd unrhyw syniadau eu creu na'u datblygu i gyfleu ystyr | **0 marc**<br>• Ni chafodd dulliau a thechnegau'r ymarferwr/cwmni eu dehongli na'u cymhwyso | **0 marc**<br>• Ni chafodd unrhyw destun ei ddehongli ac ni cheir unrhyw gysylltiad â'r ymarferwr /cwmni | **0 marc**<br>• Ni chafodd unrhyw sgiliau dylunio eu harddangos yn y broses wireddu | **0 marc**<br>• Nid oes unrhyw gyfathrebu â'r gynulleidfa |

*Rhaid i'r gwaith o ymchwilio i'r ymarferwr/cwmni fod mewn perthynas â'r holl bwyntiau bwled a restrir ar dudalen 11. Dylai'r holl waith ymchwil fod yn amlwg yn y cofnod creadigol, er nad oes angen i'r holl waith ymchwil gael ei gymhwyso yn y darn.

© WJEC CBAC Ltd.

## Uned 1: Grid gwerthuso

- Dylid sefydlu'r band priodol drwy benderfynu pa ddisgrifydd perfformiad sy'n cyfateb orau i berfformiad yr ymgeisydd
- Yna dylid sefydlu'r marc priodol drwy benderfynu **i ba raddau** y mae'r ymgeisydd wedi **bodloni'r meini prawf o fewn y band perthnasol**
- Dylid nodi bod y bandiau wedi'u cynllunio i gynorthwyo'r broses farcio drwy nodi lefelau cyflawniad unigol ac nad ydynt yn cyfateb i ffiniau graddau.

| Band | AA4.1a. 1b ac 1c.<br>Dadansoddi a gwerthuso eu gwaith eu hunain |
|---|---|
| 5 | **13-15 marc**<br>• Gwerthusiad effeithiol o'r perfformiad neu'r dyluniad terfynol wedi'i wireddu mewn perfformiad<br>• Dadansoddiad effeithiol o'u perfformiad/sgiliau dylunio a'u cyfraniad at lwyddiant y darn cyfan |
| 4 | **10-12 marc**<br>• Gwerthusiad cymwys o'r perfformiad neu'r dyluniad terfynol wedi'i wireddu mewn perfformiad<br>• Dadansoddiad cymwys o'u perfformiad/sgiliau dylunio a'u cyfraniad at lwyddiant y darn cyfan |
| 3 | **7-9 marc**<br>• Gwerthusiad digonol o'r perfformiad neu'r dyluniad terfynol wedi'i wireddu mewn perfformiad<br>• Dadansoddiad digonol o'u perfformiad/sgiliau dylunio a'u cyfraniad at lwyddiant y darn cyfan |
| 2 | **4-6 marc**<br>• Gwerthusiad cyfyngedig o'r perfformiad neu'r dyluniad terfynol wedi'i wireddu mewn perfformiad<br>Dadansoddiad cyfyngedig o'u perfformiad/sgiliau dylunio a'u cyfraniad at lwyddiant y darn cyfan |
| 1 | **1-3 marc**<br>• Gwerthusiad cyfyngedig iawn o'r perfformiad neu'r dyluniad terfynol wedi'i wireddu mewn perfformiad<br>Dadansoddiad cyfyngedig iawn o'u perfformiad/sgiliau dylunio a'u cyfraniad at lwyddiant y darn cyfan |
| 0 | **0 marc**<br>• Dim dadansoddiad na gwerthusiad o'r perfformiad na'r dyluniad |

© WJEC CBAC Ltd.

# ATODIAD Ch

**Canllawiau ar gyfer asesu Uned 1**

Asesir AA1 drwy ystyried y perfformiad neu'r dyluniad **a'r** cofnod creadigol **gyda'i gilydd**. Yn y ddau, rhaid i athrawon asesu sut mae'r darn wedi datblygu ac **nid** y sgiliau a ddefnyddiwyd i wireddu'r darn mewn perfformiad. Mae'r rhain yn cael eu hasesu yn AA2.

Mae dwy elfen i'r amcan asesu hwn.

**AA1.1a: Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr fel rhan o'r broses o wneud theatr**

Mae Colofn 1 o'r grid asesu yn asesu

AA1.1a.
Rhaid i'r cofnod creadigol **a'r** perfformiad neu'r dyluniad terfynol ddangos tystiolaeth o'r **broses o greu a datblygu theatr** i gyfleu ystyr. Dylid ystyried y canlynol, fel y bo'n briodol i'r sgil, wrth asesu AA1.1a:

- pa mor dda y mae syniadau wedi cael eu datblygu
- y dewis a'r defnydd o gonfensiynau, ffurfiau a thechnegau dramatig
- cynllunio'r gofod perfformio
- defnydd o'r pellter rhwng actorion/cynefineg *(proxemics)*
- ymarfer a mireinio
- dewis o nodweddion dylunio, e.e. goleuo, sain, set, gwisgoedd a cholur
- cynllunio'r dyluniad gan gynnwys ciwiau, i ategu'r hyn sy'n digwydd
- cyfraniad unigol y dysgwr at y broses o wneud y darn.

Gall y dystiolaeth ganlynol hefyd fod yn rhan o'r cofnod creadigol, fel y bo'n briodol i'r sgìl (nid yw hon yn rhestr hollgynhwysfawr).

**Dylunio goleuo**
- taflenni ciwiau
- plot goleuo
- bwrdd naws

**Dylunio sain**
- taflenni ciwiau
- clipiau sain
- bwrdd naws

**Dylunio set (gan gynnwys propiau)**
- model o set
- cynllun llawr
- mesuriadau
- cynllun set 3D
- bwrdd naws

**Dylunio gwisgoedd (gan gynnwys gwallt a cholur)**
- brasluniau o wisgoedd
- samplau ffabrig
- bwrdd naws

© WJEC CBAC Ltd.

**AA1.1b: Gwneud cysylltiadau rhwng theori ddramatig ac ymarfer**

Mae Colofn 2 o'r grid asesu yn asesu AA1.1b. Rhaid i'r cofnod creadigol a'r gwaith ymarferol ddangos yn glir y cysylltiadau rhwng theori ddramatig ac ymarfer. Mae'r asesiad yn canolbwyntio ar sut mae dysgwyr yn **cymhwyso** ymchwil ar eu dewis ymarferwr a thestun. Dylai'r gwaith o gymhwyso ymchwil perthnasol fod yn amlwg yn y cofnod **a'r** perfformiad neu ddyluniad.

Dylid ystyried bod y canlynol yn briodol i'r sgìl wrth asesu AA1.1b:

- sut defnyddiwyd ymchwil ar yr ymarferwr neu'r cwmni i wneud y darn o theatr
- sut mae'r testun yn cael ei ailddehongli neu ei ail-lunio i gyfleu ystyr drwy:
    - strwythur gan gynnwys strwythur y sgript
    - cymeriadu
    - naws ac awyrgylch.

**AA2: Cymhwyso sgiliau theatrig i wireddu bwriadau artistig mewn perfformiad byw**

Mae'r amcan asesu hwn yn asesu'r gwaith o gymhwyso sgiliau perfformio neu ddylunio yn y perfformiad neu'r dyluniad terfynol. Asesir pob dysgwr ar:

- ddehongli'r testun gan ddefnyddio technegau'r ymarferwr
- cymhwyso sgiliau perfformio/dylunio
- gwireddu bwriadau artistig y grŵp gan gynnwys sut mae eu cyfraniad unigol yn gwella'r perfformiad terfynol a pha mor dda y maent yn cyfathrebu drwy berfformio/dylunio.

**Ymhlith y sgiliau perfformio mae:**

- uniaethu â'r cymeriad
- defnyddio llais, lleferydd a sain
    - traw
    - cyflymder
    - saib
    - acen
    - lefel y sain
    - eglurder
- symudiadau, defnyddio'r corff mewn gofod a chydberthnasau corfforol
    - ystumiau'r corff
    - llonyddwch
    - rhuglder
    - mynegiant
- rhyngweithio â pherfformwyr eraill a'r gallu i gynnal y rhyngweithio hwn drwy'r perfformiad cyfan.

© WJEC CBAC Ltd.

**Ymhlith y sgiliau dylunio mae:**

- Dehongli'r testun
- Technegau dylunio a newidiadau neu amrywiadau yn y defnydd ohonynt fel:

  **Dylunio goleuo**
  - dwysedd
  - ffocws
  - ongl
  - effeithiau arbennig
  - lliw
  - gobos
  - mathau o lusern

  **Dylunio sain**
  - cerddoriaeth
  - effeithiau sain
  - seiniau byw ac wedi'u recordio
  - lefel y sain
  - datsain/atsain

  **Dylunio set (gan gynnwys propiau)**
  - defnydd o le
  - dewis llwyfan
  - lefelau
  - dod ar y llwyfan
  - mynd oddi ar y llwyfan
  - llinellau gweld
  - propiau
  - cefnlen/seiclorama
  - addurno set
  - lliw
  - graddfa

  **Dylunio gwisgoedd (gan gynnwys gwallt a cholur)**
  - dewis a defnydd o ddefnyddiau/fabrigau
  - dillad
  - steiliau gwallt
  - wigiau
  - colur
  - ategolion
  - lliw/patrwm.

**AA4: Dadansoddi a gwerthuso eu gwaith eu hunain**

Mae'r amcan asesu hwn yn asesu gallu'r dysgwr i ddadansoddi a gwerthuso eu perfformiad neu ddyluniad terfynol. Dadansoddir a gwerthusir drwy gyfeirio at y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a aseswyd yn AA2, gan gynnwys:

- effeithiolrwydd y perfformiad/dyluniad terfynol wedi'i wireddu mewn perfformiad
- eu sgiliau perfformio neu ddylunio, gan gynnwys eu cyfraniad at berfformiad y darn.

© WJEC CBAC Ltd.

# ATODIAD D

**Deunyddiau asesu enghreifftiol ar gyfer Uned 3: Testun ar Waith**

Mae'r deunyddiau ysgogi ar gael ar sawl ffurf fel:

- ffotograff
- paentiad
- cerdd
- rhyddiaith
- cân
- gosodiad/cwestiwn
- cysyniad.

Bob blwyddyn, bydd dysgwyr yn dewis **un** ysgogiad o ddewis o bedwar. Er enghraifft:

1. **Turn around**
2. ***The Wall,*** Dannie Abse neu ***Eifionydd,*** R. Williams Parry
3. ***Benedictus (Armed Man)*****,** Karl Jenkins
4. ***Mona Lisa,*** Leonardo Da Vinci.

© WJEC CBAC Ltd.

# ATODIAD Dd

## Uned 3: Ymgeiswyr perfformio

- Dylid defnyddio'r grid canlynol ddwywaith, unwaith ar gyfer y darn wedi'i ddyfeisio ac unwaith ar gyfer y darn testun. Mae pob darn yn cael ei farcio ar wahân allan o 45
- Dylid sefydlu'r band priodol **ar gyfer pob colofn** drwy benderfynu pa ddisgrifydd perfformiad sy'n cyfateb orau i berfformiad yr ymgeisydd
- Yna dylid sefydlu'r marc priodol drwy benderfynu **i ba raddau** y mae'r ymgeisydd wedi **bodloni'r meini prawf o fewn y band perthnasol**
- Gall cyfanswm y marciau ar gyfer y ddwy golofn adlewyrchu perfformiad ar y bandiau gwahanol ar draws yr amcanion asesu, er enghraifft, gall ymgeisydd gyflawni band 4 ar gyfer AA1 a band 5 ar gyfer AA2 colofn 1
- Dylid nodi bod y bandiau wedi'u cynllunio i gynorthwyo'r broses farcio drwy nodi lefelau cyflawniad unigol ac nad ydynt yn cyfateb i ffiniau graddau.

| | **AA1.1a.**<br>**Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr fel rhan o'r broses o wneud theatr** | **AA2**<br>**Cymhwyso sgiliau theatrig i wireddu bwriadau artistig mewn perfformiad byw** | | |
|---|---|---|---|---|
| **Band** | **Cymhwyso ymchwil mewn sefyllfa ymarferol** | **Dehongli i adlewyrchu bwriadau artistig** | **Cymhwyso sgiliau perfformio i wireddu bwriadau artistig** | **Y gallu i gyfleu bwriadau artistig i'r gynulleidfa** |
| **5** | **13-15 marc**<br>• Syniadau creadigol wedi'u datblygu'n llawn er mwyn creu darn o theatr sy'n soffistigedig, cywrain a chydlynol<br>• Detholiad hynod briodol o gonfensiynau, ffurfiau a thechnegau dramatig wedi'u dewis i gyfleu ystyr mewn ffordd hynod effeithiol drwy'r darn cyfan<br>• Mae'r gofod perfformio a'r pellter rhwng actorion wedi'u defnyddio mewn ffordd llawn dychymyg i gyfleu ystyr mewn ffordd hynod effeithiol | **9-10 marc**<br>• Dehongliad soffistigedig a hollol gydlynol o gymeriad lle mae lefel uchel o ymgysylltiad â'r rôl wedi'i chynnal drwy'r perfformiad cyfan<br>• Mae'r cymeriadu yn adlewyrchu'n gryf yr ymarferwr/arddull yn y perfformiad mewn ffordd hynod effeithiol | **9-10 marc**<br>• Sgiliau lleisiol a chorfforol aeddfed â ffocws cyson sy'n arwain at berfformiad sy'n soffistigedig ac wedi'i gynnal<br>• Rhyngweithio mewn ffordd sensitif a chynnil â pherfformwyr eraill lle y bo'n berthnasol | **9-10 marc**<br>• Lefel soffistigedig o gyfathrebu gan ddal sylw'r gynulleidfa drwy'r perfformiad cyfan |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **4** | **10-12 marc**<br>• Syniadau creadigol wedi'u datblygu'n dda i greu darn cywrain a chydlynol o theatr<br>• Dewiswyd detholiad priodol o gonfensiynau, ffurfiau a thechnegau dramatig i gyfleu ystyr drwy'r darn cyfan<br>• Mae'r gofod perfformio a'r pellter rhwng actorion wedi'u defnyddio'n dda i gyfleu ystyr mewn ffordd ystyriol | **7-8 marc**<br>• Dehongliad cydlynol o gymeriad lle mae ymgysylltiad â'r rôl wedi'i gynnal drwy'r perfformiad cyfan<br>• Mae'r cymeriadu yn adlewyrchu'r ymarferwr/arddull yn y perfformiad mewn ffordd effeithiol iawn | **7-8 marc**<br>• Sgiliau lleisiol a chorfforol â ffocws cyson sy'n arwain at berfformiad wedi'i gynnal<br>• Rhyngweithio mewn ffordd gynnil ac effeithiol â pherfformwyr eraill lle y bo'n berthnasol | **7-8 marc**<br>• Lefel uchel o gyfathrebu gan ddal sylw'r gynulleidfa drwy'r rhan fwyaf o'r perfformiad |
| **3** | **7 -9 marc**<br>• Syniadau creadigol wedi'u datblygu i greu darn o theatr cywrain a chydlynol ar y cyfan<br>• Detholiad priodol ar y cyfan o gonfensiynau, ffurfiau a thechnegau dramatig wedi'u dewis i gyfleu ystyr drwy'r rhan fwyaf o'r darn<br>• Mae'r gofod perfformio a'r pellter rhwng actorion wedi'u defnyddio'n dda ar y cyfan i gyfleu ystyr | **5-6 marc**<br>• Dehongliad cydlynol ar y cyfan o gymeriad lle mae ymgysylltiad â'r rôl wedi'i gynnal drwy'r rhan fwyaf o'r perfformiad<br>• Mae'r cymeriadu yn adlewyrchu'r ymarferwr/arddull yn y perfformiad mewn ffordd effeithiol ar y cyfan | **5-6 marc**<br>• Sgiliau lleisiol a chorfforol cymwys a chyson ar y cyfan sy'n arwain at berfformiad sydd wedi'i gynnal y rhan fwyaf o'r amser<br>• Rhyngweithio cymwys â pherfformwyr eraill lle y bo'n briodol | **5-6 marc**<br>• Lefel gyfathrebu effeithiol ar y cyfan gan ddal sylw'r gynulleidfa ar gyfer rhywfaint o'r perfformiad |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **2** | **4 -6 marc**<br>• Rhai syniadau creadigol wedi'u datblygu'n rhannol i greu darn digonol o theatr<br>• Rhai confensiynau, ffurfiau a thechnegau dramatig priodol wedi'u dewis i gyfleu ystyr mewn ffordd ddigonol<br>• Mae'r gofod perfformio a'r pellter rhwng actorion wedi'u defnyddio'n ddigonol i gyfleu rhywfaint o ystyr | **3-4 marc**<br>• Dehongliad digonol o gymeriad gyda rhai enghreifftiau o ymgysylltu â'r rôl, er nad yw hyn efallai wedi'i gynnal drwy'r perfformiad cyfan<br>• Mae'r cymeriadu yn adlewyrchu'r ymarferwr/arddull yn y perfformiad mewn ffordd ddigonol | **3-4 marc**<br>• Sgiliau lleisiol a chorfforol digonol nad ydynt yn cael eu cynnal bob amser<br>• Rhyngweithio digonol â pherfformwyr eraill sy'n berthnasol i'r olygfa gan amlaf | **3-4 marc**<br>• Lefel ddigonol o gyfathrebu a gwnaed ymgais i ddal sylw'r gynulleidfa yn ystod rhywfaint o'r perfformiad |
| **1** | **1-3 marc**<br>• Rhai syniadau creadigol wedi'u datblygu'n gyfyngedig i greu darn cyfyngedig o theatr<br>• Ychydig iawn o gonfensiynau, ffurfiau a thechnegau dramatig priodol wedi'u dewis i gyfleu ystyr mewn ffordd gyfyngedig<br>• Mae'r gofod perfformio a'r pellter rhwng actorion wedi'u defnyddio rywsut-rywsut i gyfleu ystyr mewn ffordd gyfyngedig | **1-2 farc**<br>• Dehongliad cyfyngedig o gymeriad a phrin yw'r ymgysylltiad emosiynol â'r rôl<br>• Mae'r cymeriadu yn adlewyrchu'r ymarferwr/arddull yn y perfformiad mewn ffordd gyfyngedig | **1-2 farc**<br>• Sgiliau lleisiol a chorfforol cyfyngedig nad ydynt yn cael eu cynnal<br>• Rhyngweithio cyfyngedig â pherfformwyr eraill nad yw'n berthnasol i'r olygfa yn gyffredinol | **1-2 farc**<br>• Cyfathrebu cyfyngedig heb ddal sylw'r gynulleidfa bob amser |
| **0** | 0 marc<br>• Ni chafodd unrhyw syniadau eu creu na'u datblygu i gyfleu ystyr | **0 marc**<br>• Ni chafodd unrhyw gymeriadau eu dehongli ac nid oes unrhyw gysylltiad â'r ymarferwr/arddull | **0 marc**<br>• Ni chafodd unrhyw sgiliau lleisiol na chorfforol eu harddangos ac ni cheir unrhyw ryngweithio â pherfformwyr eraill | **0 marc**<br>• Nid oes unrhyw gyfathrebu â'r gynulleidfa |

© WJEC CBAC Ltd.

## Uned 3: Ymgeiswyr dylunio

- Dylid defnyddio'r grid canlynol ddwywaith, unwaith ar gyfer y darn wedi'i ddyfeisio ac unwaith ar gyfer y darn testun. Mae pob darn yn cael ei farcio ar wahân allan o 45
- Dylid sefydlu'r band priodol **ar gyfer pob colofn** drwy benderfynu pa ddisgrifydd perfformiad sy'n cyfateb orau i berfformiad yr ymgeisydd
- Yna dylid sefydlu'r marc priodol drwy benderfynu **i ba raddau** y mae'r ymgeisydd wedi **bodloni'r meini prawf o fewn y band perthnasol**
- Gall cyfanswm y marciau ar gyfer y ddwy golofn adlewyrchu perfformiad ar y bandiau gwahanol ar draws yr amcanion asesu, er enghraifft, gall ymgeisydd gyflawni band 4 ar gyfer AA1 a band 5 ar gyfer AA2 colofn 1
- Dylid nodi bod y bandiau wedi'u cynllunio i gynorthwyo'r broses farcio drwy nodi lefelau cyflawniad unigol ac nad ydynt yn cyfateb i ffiniau graddau

| | **AA1.1a.**<br>**Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr fel rhan o'r broses o wneud theatr** | **AA2**<br>**Cymhwyso sgiliau theatrig i wireddu bwriadau artistig mewn perfformiad byw** | | |
|---|---|---|---|---|
| **Band** | **Cymhwyso ymchwil mewn sefyllfa ymarferol** | **Dehongli i adlewyrchu bwriadau artistig** | **Cymhwyso sgiliau dylunio i wireddu bwriadau artistig** | **Y gallu i gyfleu bwriadau artistig i'r gynulleidfa** |
| **5** | **13-15 marc**<br>• Syniadau creadigol wedi'u datblygu'n llawn er mwyn creu darn o theatr sy'n soffistigedig, cywrain a chydlynol<br>• Detholiad hynod briodol o dechnegau dylunio wedi'u dewis i gyfleu ystyr mewn ffordd hynod effeithiol drwy'r darn cyfan<br>• Mae'r ciwiau dylunio/set/gwisgoedd wedi'u cynllunio/trefnu mewn ffordd llawn dychymyg i gyfleu ystyr mewn ffordd hynod effeithiol | **9-10 marc**<br>• Dehongliad soffistigedig a hollol gydlynol o'r testun wedi'i gynnal drwy'r perfformiad cyfan<br>• Mae'r dyluniad yn adlewyrchu'n gryf yr ymarferwr/arddull yn y perfformiad mewn ffordd hynod effeithiol | **9-10 marc**<br>• Sgiliau dylunio hynod effeithiol â ffocws cyson sy'n arwain at wireddu'r perfformiad mewn modd soffistigedig sydd wedi'i gynnal<br>• Newidiadau/amrywiadau hynod briodol a chynnil i'r dyluniad fel sy'n briodol i'r testun | **9-10 marc**<br>• Lefel soffistigedig o gyfleu ystyr ac awyrgylch, gan ddal sylw'r gynulleidfa drwy'r perfformiad cyfan |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **4** | **10-12 marc**<br>• Syniadau creadigol wedi'u datblygu'n dda i greu darn cywrain a chydlynol o theatr<br>• Detholiad priodol o dechnegau dylunio wedi'u dewis i gyfleu ystyr drwy'r darn cyfan<br>• Mae'r ciwiau dylunio/set/gwisgoedd wedi'u cynllunio/trefnu'n dda i gyfleu ystyr mewn ffordd ystyriol | **7-8 marc**<br>• Dehongliad cydlynol o'r testun wedi'i gynnal drwy'r perfformiad cyfan<br>• Mae'r dyluniad yn adlewyrchu'r ymarferwr/arddull yn y perfformiad mewn ffordd effeithiol | **7-8 marc**<br>• Sgiliau dylunio â ffocws cyson sy'n arwain at wireddu'r perfformiad mewn modd sydd wedi'i gynnal<br>• Newidiadau/amrywiadau cynnil ac effeithiol i'r dyluniad fel sy'n briodol i'r testun | **7-8 marc**<br>• Lefel uchel o gyfleu ystyr ac awyrgylch gan ddal sylw'r gynulleidfa drwy'r rhan fwyaf o'r perfformiad |
| **3** | **7-9 marc**<br>• Syniadau creadigol wedi'u datblygu i greu darn cywrain a chydlynol o theatr ar y cyfan<br>• Detholiad priodol ar y cyfan o dechnegau dylunio wedi'u dewis i gyfleu ystyr drwy'r rhan fwyaf o'r darn<br>• Mae'r ciwiau dylunio/set/gwisgoedd wedi'u cynllunio/trefnu'n dda yn gyffredinol i gyfleu ystyr | **5-6 marc**<br>• Dehongliad cydlynol ar y cyfan o'r testun wedi'i gynnal drwy'r rhan fwyaf o'r perfformiad<br>• Mae'r dyluniad yn adlewyrchu'r ymarferwr/arddull yn y perfformiad mewn ffordd effeithiol ar y cyfan | **5-6 marc**<br>• Sgiliau dylunio cymwys a chyson ar y cyfan sy'n arwain at wireddu'r perfformiad mewn ffordd sy'n cael ei chynnal y rhan fwyaf o'r amser<br>• Newidiadau/amrywiadau cymwys i'r dyluniad fel sy'n briodol i'r testun | **5-6 marc**<br>• Lefel effeithiol ar y cyfan o gyfleu ystyr ac awyrgylch, gan ddal sylw'r gynulleidfa ar gyfer rhywfaint o'r perfformiad |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **2** | **4-6 marc**<br>• Rhai syniadau creadigol wedi'u datblygu'n rhannol i greu darn digonol o theatr<br>• Rhai technegau dylunio priodol wedi'u dewis i gyfleu ystyr mewn ffordd ddigonol<br>• Mae'r ciwiau dylunio wedi'u cynllunio/trefnu'n ddigonol i gyfleu rhywfaint o ystyr | **3-4 marc**<br>• Dehongliad digonol o'r testun, wedi'i gynnal am rywfaint o'r perfformiad<br>• Mae'r dyluniad yn adlewyrchu'r ymarferwr/arddull yn y perfformiad mewn ffordd ddigonol | **3-4 marc**<br>• Sgiliau dylunio digonol sy'n arwain at wireddu'r perfformiad mewn ffordd sydd wedi'i gynnal rhywfaint o'r amser<br>• Defnydd digonol o newidiadau/amrywiadau ond maent yn berthnasol i'r olygfa gan amlaf | **3-4 marc**<br>• Cyfleu ystyr ac awyrgylch yn ddigonol a gwnaed ymgais i ddal sylw'r gynulleidfa yn ystod rhywfaint o'r perfformiad |
| **1** | **1-3 marc**<br>• Rhai syniadau creadigol wedi'u datblygu'n gyfyngedig i greu darn cyfyngedig o theatr<br>• Ychydig iawn o dechnegau dylunio perthnasol wedi'u dewis i gyfleu ystyr mewn ffordd gyfyngedig<br>• Mae'r ciwiau dylunio/set/gwisgoedd wedi'u cynllunio/trefnu rywsut-rywsut i gyfleu ystyr mewn ffordd gyfyngedig | **1-2 farc**<br>• Dehongliad cyfyngedig o'r testun<br>• Mae'r dyluniad yn adlewyrchu'r ymarferwr/arddull yn y perfformiad mewn ffordd gyfyngedig. | **1-2 farc**<br>• Sgiliau dylunio cyfyngedig nad ydynt wedi'u cynnal drwy'r broses wireddu gyfan<br>• Newidiadau/amrywiadau cyfyngedig i'r dyluniad nad ydynt yn berthnasol i'r olygfa yn gyffredinol. | **1-2 farc**<br>• Cyfleu ystyr ac awyrgylch mewn modd cyfyngedig heb ddal sylw'r gynulleidfa drwy'r perfformiad cyfan |
| **0** | **0 marc**<br>• Ni chafodd syniadau eu creu na'u datblygu | **0 marc**<br>• Ni chafodd unrhyw destun ei ddehongli ac nid oes unrhyw gysylltiad â'r ymarferwr/arddull | **0 marc**<br>• Ni chafodd unrhyw sgiliau dylunio eu harddangos yn y broses wireddu | **0 marc**<br>• Nid oes unrhyw gyfathrebu â'r gynulleidfa |

© WJEC CBAC Ltd.

## Uned 3: Adroddiad Proses a Gwerthuso. Ymgeiswyr Perfformio

- Dylid sefydlu'r band priodol **ar gyfer pob colofn** drwy benderfynu pa ddisgrifydd perfformiad sy'n cyfateb orau i berfformiad yr ymgeisydd
- Yna dylid sefydlu'r marc priodol drwy benderfynu **i ba raddau** y mae'r ymgeisydd wedi **bodloni'r meini prawf o fewn y band perthnasol**
- Gall cyfanswm y marciau ar gyfer y ddwy golofn adlewyrchu perfformiad ar y bandiau gwahanol ar draws yr amcanion asesu, er enghraifft, gall ymgeisydd gyflawni band 4 ar gyfer colofn AA1 a band 5 ar gyfer AA4 colofn 1.
- Dylid nodi bod y bandiau wedi'u cynllunio i gynorthwyo'r broses farcio drwy nodi lefelau cyflawniad unigol ac nad ydynt yn cyfateb i ffiniau graddau.

| **Band** | **AA1.1b.<br>Gwneud cysylltiadau rhwng theori ddramatig ac ymarfer** | **AA4.1a, 1b ac 1d.<br>Dadansoddi a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill** | |
|---|---|---|---|
| | Adroddiad proses | Dadansoddi a gwerthuso'r broses | Dadansoddi a gwerthuso'r perfformiad |
| **5** | **9-10 marc**<br>• Ymateb creadigol a soffistigedig i'r ysgogiad i gynhyrchu dau ddarn sy'n arddangos strwythurau wedi'u diffinio'n glir gyda chymeriadau wedi'u datblygu'n llawn<br>• Dehongliad aeddfed a soffistigedig o'r testun gan arddangos dealltwriaeth drylwyr o arddull y darn yng nghyd-destun y testun cyfan<br>• Ymchwilir* i'r ymarferwr/cwmni yn llawn ac mae agweddau perthnasol iawn ar yr ymchwil, yn cynnwys technegau, dulliau, arddull a chonfensiynau'r ymarferwr/cwmni wedi'u cymhwyso mewn modd creadigol a medrus wrth wneud y darn wedi'i ddyfeisio<br>• Mae'r dulliau a'r technegau arddulliol a ddewiswyd wedi'u cymhwyso'n ofalus ac yn fedrus wrth wneud y darn o destun | **9-10 marc**<br>• Dadansoddiad craff a thrylwyr o'r broses greadigol ar gyfer y ddau ddarn gan gynnwys sut dewiswyd confensiynau, ffurfiau a thechnegau dramatig i gyfleu ystyr<br>• Gwerthusiad craff a thrylwyr o'r modd y cafodd y darnau eu diwygio a'u mireinio ar gyfer y perfformiad<br>• Dadansoddiad craff a thrylwyr o'r modd y dylanwadodd y theatr fyw a welwyd yn ystod y cwrs ar ddatblygiad eu darnau nhw | **9-10 marc**<br>• Gwerthusiad craff a thrylwyr o'r ddau berfformiad terfynol gan gynnwys pa mor dda y gwnaethant ddefnyddio sgiliau perfformio i gyfrannu at lwyddiant y darn<br>• Dadansoddiad craff a thrylwyr o'r modd y defnyddiwyd technegau'r ymarferwr/cwmni/arddulliol yn y perfformiad gan gynnwys sut mae'r ddau berfformiad yn wahanol |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **4** | **7-8 marc**<br>• Ymateb creadigol i'r ysgogiad i gynhyrchu dau ddarn sy'n arddangos strwythurau wedi'u diffinio'n dda gyda chymeriadau wedi'u datblygu'n dda<br>• Dehongliad effeithiol o'r testun gan arddangos dealltwriaeth drylwyr o arddull y darn yng nghyd-destun y testun cyfan<br>• Ymchwilir* i'r ymarferwr/cwmni ac mae'r agweddau mwyaf perthnasol ar yr ymchwil hwn, yn cynnwys technegau, dulliau, arddull a chonfensiynau'r ymarferwr/cwmni wedi'u cymhwyso'n effeithiol wrth wneud y darn wedi'i ddyfeisio<br>• Mae'r dulliau a'r technegau arddulliol a ddewiswyd wedi'u cymhwyso'n effeithiol wrth wneud y darn o destun | **7-8 marc**<br>• Dadansoddiad trylwyr o'r broses greadigol ar gyfer y ddau ddarn gan gynnwys sut cafodd confensiynau, ffurfiau a thechnegau dramatig eu dewis a'u defnyddio i gyfleu ystyr<br>• Gwerthusiad trylwyr o'r modd y cafodd y darnau eu diwygio a'u mireinio ar gyfer y perfformiad<br>• Dadansoddiad trylwyr o'r modd y dylanwadodd y theatr fyw a welwyd yn ystod y cwrs ar ddatblygiad eu darnau nhw | **7-8 marc**<br>• Gwerthusiad trylwyr o'r ddau berfformiad terfynol gan gynnwys pa mor dda y gwnaethant ddefnyddio sgiliau perfformio i gyfrannu at lwyddiant y darn<br>• Dadansoddiad trylwyr o'r modd y defnyddiwyd technegau'r ymarferwr/cwmni/arddulliol yn y perfformiad gan gynnwys sut mae'r ddau berfformiad yn wahanol |
| **3** | **5-6 marc**<br>• Ymateb cyffredinol i'r ysgogiad i greu dau ddarn sy'n arddangos strwythurau wedi'u diffinio'n gyffredinol gyda chymeriadau wedi'u datblygu'n gyffredinol<br>• Dehongliad cyffredinol o'r testun gan arddangos dealltwriaeth o arddull y darn yng nghyd-destun y testun cyfan<br>• Ymchwilir* i'r ymarferwr/cwmni mewn ffordd gyffredinol ac mae agweddau cyffredinol ar yr ymchwil hwn, yn cynnwys technegau, dulliau, arddull a chonfensiynau'r ymarferwr/cwmni wedi'u cymhwyso mewn ffordd gyffredinol wrth wneud y darn wedi'i ddyfeisio<br>• Mae'r dulliau a'r technegau arddulliol a ddewiswyd wedi'u cymhwyso mewn ffordd gyffredinol wrth wneud y darn o destun | **5-6 marc**<br>• Dadansoddiad cymwys o'r broses greadigol ar gyfer y ddau ddarn gan gynnwys sut cafodd confensiynau, ffurfiau a thechnegau dramatig eu dewis a'u defnyddio i gyfleu ystyr<br>• Gwerthusiad cymwys o'r modd y cafodd y darnau eu diwygio a'u mireinio ar gyfer y perfformiad<br>• Dadansoddiad cymwys o'r modd y dylanwadodd y theatr fyw a welwyd yn ystod y cwrs ar ddatblygiad eu darnau nhw | **5-6 marc**<br>• Gwerthusiad cymwys o'r ddau berfformiad terfynol gan gynnwys pa mor dda y gwnaethant ddefnyddio sgiliau perfformio i gyfrannu at lwyddiant y darn<br>• Dadansoddiad cymwys o'r modd y defnyddiwyd technegau'r ymarferwr/cwmni/arddulliol yn y perfformiad gan gynnwys sut mae'r ddau berfformiad yn wahanol |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **2** | **3-4 marc**<br>• Ymateb rhannol i'r ysgogiad i greu dau ddarn sy'n arddangos strwythurau digonol gyda rhai enghreifftiau o ddatblygu cymeriadau<br>• Dehongliad digonol o'r testun gan arddangos rhywfaint o ddealltwriaeth o arddull y darn yng nghyd-destun y testun cyfan<br>• Ymchwilir* i'r ymarferwr/cwmni mewn ffordd ddigonol ac mae rhai agweddau perthnasol ar yr ymchwil hwn, yn cynnwys technegau, dulliau, arddull a chonfensiynau'r ymarferwr/cwmni wedi'u cymhwyso'n ddigonol wrth wneud y darn wedi'i ddyfeisio<br>• Mae rhai o'r dulliau a'r technegau arddulliol a ddewiswyd wedi'u cymhwyso mewn ffordd ddigonol wrth wneud y darn o destun | **3-4 marc**<br>• Dadansoddiad digonol o'r broses greadigol ar gyfer un o'r darnau neu'r ddau gan gynnwys sut cafodd confensiynau, ffurfiau a thechnegau dramatig eu dewis a'u defnyddio i gyfleu ystyr<br>• Gwerthusiad digonol o'r modd y cafodd y darnau eu diwygio a'u mireinio ar gyfer y perfformiad<br>• Dadansoddiad digonol o'r modd y dylanwadodd y theatr fyw a welwyd yn ystod y cwrs ar ddatblygiad eu darnau nhw | **3-4 marc**<br>• Gwerthusiad digonol o'r ddau berfformiad terfynol gan gynnwys pa mor dda y gwnaethant ddefnyddio sgiliau perfformio i gyfrannu at lwyddiant y darn<br>• Dadansoddiad digonol o'r modd y defnyddiwyd technegau'r ymarferwr/cwmni/arddulliol yn y perfformiad gan gynnwys sut mae'r ddau berfformiad yn wahanol |
| **1** | **1-2 farc**<br>• Ymateb cyfyngedig i'r ysgogiad i greu dau ddarn sy'n arddangos strwythurau cyfyngedig gan ddatblygu cymeriadau mewn modd cyfyngedig<br>• Dehongliad cyfyngedig o'r testun gan arddangos dealltwriaeth gyfyngedig o arddull y darn yng nghyd-destun y testun cyfan<br>• Ymchwilir* i'r ymarferwr/cwmni mewn ffordd gyfyngedig ac mae'r ychydig agweddau perthnasol ar yr ymchwil hwn, yn cynnwys rhai o dechnegau, dulliau, arddull a chonfensiynau'r ymarferwr/cwmni wedi'u cymhwyso mewn ffordd gyfyngedig wrth wneud y darn wedi'i ddyfeisio<br>• Mae rhai dulliau a thechnegau arddulliol a ddewiswyd wedi'u cymhwyso mewn ffordd gyfyngedig wrth wneud y darn o destun | **1-2 farc**<br>• Dadansoddiad cyfyngedig o'r broses greadigol ar gyfer un o'r darnau neu'r ddau gan gynnwys sut cafodd confensiynau, ffurfiau a thechnegau dramatig eu dewis a'u defnyddio i gyfleu ystyr<br>• Gwerthusiad cyfyngedig o'r modd y cafodd y darnau eu diwygio a'u mireinio ar gyfer y perfformiad<br>• Dadansoddiad cyfyngedig o'r modd y dylanwadodd y theatr fyw a welwyd yn ystod y cwrs ar ddatblygiad eu darnau nhw | **1-2 farc**<br>• Gwerthusiad cyfyngedig o'r ddau berfformiad terfynol gan gynnwys pa mor dda y gwnaethant ddefnyddio sgiliau perfformio i gyfrannu at lwyddiant y darn<br>• Dadansoddiad cyfyngedig o'r modd y defnyddiwyd technegau'r ymarferwr/cwmni/arddulliol yn y perfformiad gan gynnwys sut mae'r ddau berfformiad yn wahanol |
| **0** | **0 marc**<br>• Ni chafodd dulliau a thechnegau'r ymarferwr/cwmni eu cymhwyso | **0 marc**<br>• Dim dadansoddiad na gwerthusiad o'r broses | **0 marc**<br>• Dim dadansoddiad na gwerthusiad o berfformiadau/dyluniadau |

*Rhaid i'r gwaith o ymchwilio i'r ymarferwr/cwmni fod mewn perthynas â'r holl bwyntiau bwled a restrir ar dudalen 18. Dylai pob agwedd fod yn amlwg yn yr adroddiad proses a gwerthuso, er nad oes angen i'r holl waith ymchwil gael ei gymhwyso yn y darn.

© WJEC CBAC Ltd.

## Uned 3: Adroddiad Proses a Gwerthuso. Ymgeiswyr Dylunio

- Dylid sefydlu'r band priodol **ar gyfer pob colofn** drwy benderfynu pa ddisgrifydd perfformiad sy'n cyfateb orau i berfformiad yr ymgeisydd
- Yna dylid sefydlu'r marc priodol drwy benderfynu **i ba raddau** y mae'r ymgeisydd wedi **bodloni'r meini prawf o fewn y band perthnasol**
- Gall cyfanswm y marciau ar gyfer y ddwy golofn adlewyrchu perfformiad ar y bandiau gwahanol ar draws yr amcan asesu, er enghraifft, gall ymgeisydd gyflawni band 4 ar gyfer AA1 a band 5 ar gyfer AA4 colofn 1
- Dylid nodi bod y bandiau wedi'u cynllunio i gynorthwyo'r broses farcio drwy nodi lefelau cyflawniad unigol ac nad ydynt yn cyfateb i ffiniau graddau.

| **Band** | **AA1.b**<br>**Gwneud cysylltiadau rhwng theori ddramatig ac ymarfer** | **AA4**<br>**Dadansoddi a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill** | |
|---|---|---|---|
| | Adroddiad proses | Dadansoddi a gwerthuso'r broses | Dadansoddi a gwerthuso'r dyluniad |
| **5** | **9-10 marc**<br>• Ymateb creadigol a soffistigedig i'r ysgogiad i gynhyrchu dau ddarn sy'n arddangos strwythurau wedi'u diffinio'n glir gyda chysyniad dylunio wedi'i ddatblygu'n llawn<br>• Dehongliad aeddfed a soffistigedig o'r testun gan arddangos dealltwriaeth drylwyr o arddull y darn yng nghyd-destun y testun cyfan<br>• Ymchwilir* i'r ymarferwr/cwmni yn llawn ac mae agweddau perthnasol iawn ar yr ymchwil, yn cynnwys technegau, dulliau, arddull a chonfensiynau'r ymarferwr/cwmni wedi'u cymhwyso mewn modd creadigol a medrus wrth wneud y darn wedi'i ddyfeisio<br>• Mae'r dulliau a'r technegau arddulliol a ddewiswyd wedi'u cymhwyso'n greadigol ac yn fedrus wrth wneud y darn o destun | **9-10 marc**<br>• Dadansoddiad craff a thrylwyr o'r broses greadigol ar gyfer y ddau ddarn gan gynnwys sut cafodd confensiynau, ffurfiau a thechnegau dramatig eu dewis a'u defnyddio i gyfleu ystyr<br>• Gwerthusiad craff a thrylwyr o'r modd y cafodd y darnau eu diwygio a'u mireinio ar gyfer y perfformiad<br>• Dadansoddiad craff a thrylwyr o'r modd y dylanwadodd y theatr fyw a welwyd yn ystod y cwrs ar ddatblygiad eu darnau nhw | **9-10 marc**<br>• Gwerthusiad craff a thrylwyr o'r ddau berfformiad terfynol gan gynnwys pa mor dda y gwnaethant ddefnyddio sgiliau perfformio i gyfrannu at lwyddiant y darn<br>• Dadansoddiad craff a thrylwyr o'r modd y defnyddiwyd technegau'r ymarferwr/cwmni/arddulliol yn y dyluniad gan gynnwys sut mae'r ddau ddyluniad yn wahanol |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **4** | **7-8 marc**<br>• Ymateb creadigol i'r ysgogiad i gynhyrchu dau ddarn sy'n arddangos strwythurau wedi'u diffinio'n dda gyda chysyniad dylunio wedi'i ddatblygu'n dda<br>• Dehongliad effeithiol o'r testun gan arddangos dealltwriaeth o arddull y darn yng nghyd-destun y testun cyfan<br>• Ymchwilir* i'r ymarferwr/cwmni ac mae'r agweddau mwyaf perthnasol ar yr ymchwil hwn, yn cynnwys technegau, dulliau, arddull a chonfensiynau'r ymarferwr/cwmni wedi'u cymhwyso'n effeithiol wrth wneud y darn wedi'i ddyfeisio<br>• Mae'r dulliau a'r technegau arddulliol a ddewiswyd wedi'u cymhwyso'n effeithiol wrth wneud y testun | **7-8 marc**<br>• Dadansoddiad trylwyr o'r broses greadigol ar gyfer y ddau ddarn gan gynnwys sut cafodd technegau dylunio eu dewis a'u defnyddio i gyfleu ystyr<br>• Gwerthusiad trylwyr o'r modd y cafodd y darnau eu diwygio a'u mireinio ar gyfer y perfformiad<br>• Dadansoddiad trylwyr o'r modd y dylanwadodd y theatr fyw a welwyd yn ystod y cwrs ar ddatblygiad eu darnau nhw | **7-8 marc**<br>• Gwerthusiad trylwyr o'r ddau berfformiad terfynol gan gynnwys pa mor dda y gwnaethant ddefnyddio sgiliau dylunio i gyfrannu at lwyddiant y darn<br>• Dadansoddiad trylwyr o'r modd y defnyddiwyd technegau'r ymarferwr/cwmni/arddulliol yn y perfformiad gan gynnwys sut mae'r ddau ddyluniad yn wahanol |
| **3** | **5-6 marc**<br>• Ymateb cyffredinol i'r ysgogiad i greu dau ddarn sy'n arddangos strwythurau wedi'u diffinio'n gyffredinol gyda chysyniad dylunio wedi'i ddatblygu'n gyffredinol<br>• Dehongliad cyffredinol o'r testun gan arddangos dealltwriaeth o arddull y darn yng nghyd-destun y testun cyfan<br>• Ymchwilir* i'r ymarferwr/cwmni mewn ffordd gyffredinol ac mae agweddau cyffredinol ar yr ymchwil hwn, yn cynnwys technegau, dulliau, arddull a chonfensiynau'r ymarferwr/cwmni wedi'i cymhwyso mewn ffordd gyffredinol wrth wneud y darn wedi'i ddyfeisio<br>• Mae'r dulliau a'r technegau arddulliol a ddewiswyd wedi'u cymhwyso mewn ffordd gyffredinol wrth wneud y darn o destun | **5-6 marc**<br>• Dadansoddiad cymwys o'r broses greadigol ar gyfer y ddau ddarn gan gynnwys sut cafodd technegau dylunio eu dewis a'u defnyddio i gyfleu ystyr<br>• Gwerthusiad cymwys o'r modd y cafodd y darnau eu diwygio a'u mireinio ar gyfer y perfformiad Dadansoddiad cymwys o'r modd y dylanwadodd y theatr fyw a welwyd yn ystod y cwrs ar ddatblygiad eu darnau nhw | **5-6 marc**<br>• Gwerthusiad cymwys o'r ddau berfformiad terfynol gan gynnwys pa mor dda y gwnaethant ddefnyddio sgiliau dylunio i gyfrannu at lwyddiant y darn<br>• Dadansoddiad cymwys o'r modd y defnyddiwyd technegau'r ymarferwr/cwmni/arddulliol yn y perfformiad gan gynnwys sut mae'r ddau ddyluniad yn wahanol |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **2** | **3-4 marc**<br>• Ymateb rhannol i'r ysgogiad i greu darn sy'n arddangos strwythurau digonol gyda rhai enghreifftiau o ddatblygu cysyniad dylunio<br>• Dehongliad digonol o'r testun gan arddangos rhywfaint o ddealltwriaeth o arddull y darn yng nghyd-destun y testun cyfan<br>• Ymchwilir* i'r ymarferwr/cwmni mewn ffordd ddigonol ac mae rhai agweddau perthnasol ar yr ymchwil hwn, yn cynnwys technegau, dulliau, arddull a chonfensiynau'r ymarferwr/cwmni wedi'u cymhwyso'n ddigonol wrth wneud y darn wedi'i ddyfeisio<br>• Mae rhai o'r dulliau a'r technegau arddulliol a ddewiswyd wedi'u cymhwyso mewn ffordd ddigonol wrth wneud y darn o destun | **3-4 marc**<br>• Dadansoddiad digonol o'r broses greadigol ar gyfer un o'r darnau neu'r ddau gan gynnwys sut cafodd technegau dylunio eu dewis a'u defnyddio i gyfleu ystyr<br>• Gwerthusiad digonol o'r modd y cafodd y darnau eu diwygio a'u mireinio ar gyfer y perfformiad<br>• Dadansoddiad digonol o'r modd y dylanwadodd y theatr fyw a welwyd yn ystod y cwrs ar ddatblygiad eu darnau nhw | **3-4 marc**<br>• Gwerthusiad digonol o'r ddau berfformiad terfynol gan gynnwys pa mor dda y gwnaethant ddefnyddio sgiliau dylunio i gyfrannu at lwyddiant y darn<br>• Dadansoddiad digonol o'r modd y defnyddiwyd technegau'r ymarferwr/cwmni/arddulliol yn y perfformiad gan gynnwys sut mae'r ddau ddyluniad yn wahanol |
| **1** | **1-2 farc**<br>• Ymateb cyfyngedig i'r ysgogiad i greu dau ddarn sy'n arddangos strwythurau cyfyngedig gyda datblygiad cyfyngedig o'r cysyniad dylunio<br>• Dehongliad cyfyngedig o'r testun gan arddangos dealltwriaeth gyfyngedig o arddull y darn yng nghyd-destun y testun cyfan<br>• Ymchwilir* i'r ymarferwr/cwmni mewn ffordd gyfyngedig ac mae'r ychydig agweddau perthnasol ar yr ymchwil hwn, yn cynnwys rhai o dechnegau, dulliau, arddull a chonfensiynau'r ymarferwr/cwmni wedi'u cymhwyso mewn ffordd gyfyngedig wrth wneud y darn wedi'i ddyfeisio<br>• Mae rhai dulliau a thechnegau arddulliol a ddewiswyd wedi'u cymhwyso mewn ffordd gyfyngedig wrth wneud y darn o destun | **1-2 farc**<br>• Dadansoddiad cyfyngedig o'r broses greadigol ar gyfer un o'r darnau neu'r ddau gan gynnwys sut cafodd y technegau dylunio eu dewis a'u defnyddio i gyfleu ystyr<br>• Gwerthusiad cyfyngedig o'r modd y cafodd y darnau eu diwygio a'u mireinio ar gyfer y perfformiad<br>• Dadansoddiad cyfyngedig o'r modd y dylanwadodd y theatr fyw a welwyd yn ystod y cwrs ar ddatblygiad eu darnau nhw | **1-2 farc**<br>• Gwerthusiad cyfyngedig o'r ddau berfformiad terfynol gan gynnwys pa mor dda y gwnaethant ddefnyddio sgiliau dylunio i gyfrannu at lwyddiant y darn<br>• Dadansoddiad cyfyngedig o'r modd y defnyddiwyd technegau'r ymarferwr/cwmni/arddulliol yn y perfformiad gan gynnwys sut mae'r ddau ddyluniad yn wahanol |
| **0** | **0 marc**<br>• Ni chafodd dulliau a thechnegau'r ymarferwr/cwmni/arddulliol eu cymhwyso | **0 marc**<br>• Dim dadansoddiad na gwerthusiad o'r broses | **0 marc**<br>• Dim dadansoddiad na gwerthusiad o berfformiadau/dyluniadau |

*Rhaid i'r gwaith o ymchwilio i'r ymarferwr/cwmni fod mewn perthynas â'r holl bwyntiau bwled a restrir ar dudalen 18. Dylai'r holl waith ymchwil fod yn amlwg yn y cofnod creadigol, er nad oes angen i'r holl waith ymchwil gael ei gymhwyso yn y darn.



© WJEC CBAC Ltd.